Cyfranogiad Rhieni

Dogfen Wybodaeth

Rhianta

Dogfen Wybodaeth yr AADGOS Rhif: **019-06**
Dyddiad Cyhoeddi: **Medi 2006**

Canllawiau Ymarfer ar gyfer Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc

PLANT A PHOBL IFANC - GWEITHREDU'R HAWLIAU
CHILDREN AND YOUNG PEOPLE - RIGHTS TO ACTION

Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Teitl y ddogfen: Cyfranogiad Rhieni: Canllawiau Ymarfer ar gyfer Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

Cynulleidfa: Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG; Cyfarwyddwyr Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd y Cyhoedd ac Ymwelwyr Iechyd; Cydgysylltwyr y Fframwaith; Prif Swyddogion Ieuenctid; Fforymau Ieuenctid; Mudiadau Gwirfoddol Plant Allweddol; Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol; Y Comisiwn Cyfle Cyfartal; Y Comisiwn Hawliau Anabledd; Llyfrgellwyr Sirol; Gwasanaethau Gwirfoddol Cymunedol; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Prif Gwnstabliaid yr Heddlu; TUC Cymru; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Aelodau Gweithgor y Cynllun Gweithredu Rhianta; Comisiynydd Plant Cymru.

Trosolwg: Anelir y ddogfen hon at y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Ei nod yw cynnig model ar gyfer cyfranogiad rhieni; gan roi enghreifftiau ymarferol ac adnoddau defnyddiol ar gyfer cynnwys rhieni yng ngwaith y Partneriaethau, ac i sefydlu Rhwydweithiau Rhieni lleol.

Gwybodaeth bellach: Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Huw Gwyn Jones
Ffôn: 029 2082 3675
Ffacs: 029 2082 5116
E-bost: **cft@wales.gsi.gov.uk**

Copiau ychwanegol: Gellir eu derbyn oddi wrth:

Jane Hanbury
Ffôn: 029 2082 5101
Ffacs: 029 2082 5116

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru ar **www.dysgu.cymru.gov.uk**

Dogfennau perthnasol: Cynllun Gweithredu Rhianta, Tachwedd 2005.

Hoffem ddiolch i Jayne Isaac o NCH Cymru am ysgrifennu'r canllaw ymarfer, ac i'r nifer o sefydliadau ac unigolion a gyfrannodd. Hefyd, carem ddiolch i Rwydwaith Rhieni Caerffili am gyfrannu ffotograffau i'n canllawiau ymarfer.

G/154/06-07
ISBN 0 7504 3962 9

Medi
CMK-22-07-130

Cysodwyd mewn 12pt
©Hawlfraint y Goron 2006

CYNNWYS

Rhagarweiniad

Adran 1 PAM CYFRANOGIAD RHIENI? BETH Y MAE'N EI FEDDWL?

Y diffiniad o rieni
Pam cynnwys rhieni mewn cynllunio, datblygu a gwerthuso gwasanaethau?
Model ar gyfer cyfranogi

Adran 2 PARATOI I GYNNWYS RHIENI

Deall y rhwystrau:

Y rhwystrau i rieni
Y rhwystrau i weithwyr proffesiynol

Goresgyn y Rhwystrau - Proses

a) Penderfynu pwy fydd yn arwain
b) Sicrhau bod y sefydliad yn ymrwymedig i gyfranogi a bod y staff yn barod ar ei gyfer
c) Mapio'r grwpiau a'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd i rieni yn eich ardal
d) Gweithio gyda grŵp o rieni i ddatblygu egwyddorion a safonau cyfranogi
e) Meithrin gallu rhieni i gyfranogi
f) Meddwl am yr holl gyfleoedd sydd ar gael i rieni gael cyfranogi a rhoi systemau yn eu lle i sicrhau cyfranogiad ar bob lefel
g) Monitro a gwerthuso cyfranogiad rhieni

Adran 3 Y PUM LEFEL O GYFRANOGIAD RHIENI - GWEITHREDU'R MODEL

Lefel un - GWYBODAETH

a) Pa wybodaeth?
b) Ffyrdd o rannu gwybodaeth

Lefel dau - YMGYNGHORI

a) Materion i'w hystyried
Cyn ymgynghori
Dulliau o ymgynghori
Ar ôl ymgynghori
b) Cyfleoedd i ymgynghori:
Ymgynghori ar lefel gwasanaeth
Ymgynghori ar lefel partneriaeth

Lefel tri - PENDERFYNU GYDA'CH GILYDD

a) Penderfynu gyda'ch gilydd ar lefel gwasanaeth
b) Penderfynu gyda'ch gilydd ar lefel Partneriaeth

Lefel pedwar - GWEITHREDU GYDA'CH GILYDD

Lefel pump - CEFNOGI GWEITHREDU ANNIBYNNOL

a) Gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan rieni
b) Rhwydweithiau Rhieni a Fforymau Rhieni
c) Ystod a phwrpas Fforymau Rhieni

Adran 4 FFORYMAU RHIENI A RHWYDWEITHIAU RHIENI

Beth yw Rhwydweithiau Rhieni?

Rhwydwaith Rhieni Caerffili:

Hanes a phwrpas y Rhwydwaith
Rhwydwaith Rhieni Caerffili heddiw
Aelodau a'u barn
Datblygiad y Rhwydwaith i'r Dyfodol

Rhwydwaith Rhieni Castell-nedd Port Talbot

Hanes a phwrpas y Rhwydwaith
Polisi a chynllunio
Datblygu rhwydwaith cefnogi
Datblygiad y Rhwydwaith i'r dyfodol
Sefydlu Rhwydwaith Rhieni

Adran 5 CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Grwpiau sydd angen cymorth ychwanegol i gyfranogi arnynt
Tadau a dynion eraill sy'n gofalu
Rhieni Du a Lleiafrifoedd Ethnig
Rhieni i blant anabl
Rhieni anabl
Rhieni sengl
Neiniau a theidiau a gofalwyr hŷn eraill
Rhieni Plant sy'n Derbyn Gofal

Atodiadau

Atodiadau 1 Y cyd-destun polisi yng Nghymru
Atodiadau 2 Dulliau o ymgynghori
Atodiadau 3 Dulliau o werthuso gwasanaethau gyda rhieni
Atodiadau 4 Crynodeb o'r cyfleoedd sydd ar gael i rieni gael cyfranogi
Atodiadau 5 Cysylltiadau defnyddiol ychwanegol
Atodiadau 6 Llenyddiaeth

RHAGARWEINIAD

Cynhyrchwyd y canllawiau hyn fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Rhianta[1] a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn Rhagfyr 2005. Mae'r Cynllun Gweithredu Rhianta yn nodi pa brosiectau presennol ac arfaethedig sydd gan Lywodraeth y Cynulliad i gefnogi magu plant yng Nghymru. Ei nod yw codi proffil magu plant ymhlith gwneuthurwyr polisi a darparwyr gwasanaethau a datblygu polisïau a gwasanaethau ymhellach er mwyn helpu teuluoedd i fagu eu plant.

Un o ofynion y Cynllun Gweithredu yw bod rhieni a gofalwyr eraill yn cael eu cynorthwyo i gyfranogi'n effeithiol mewn cynllunio gwasanaethau.

Anelir y ddogfen hon yn bennaf at y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Ei nod yw cynnig model ar gyfer cyfranogiad rhieni; gan roi enghreifftiau ymarferol ac adnoddau defnyddiol ar gyfer cynnwys rhieni yng ngwaith y Partneriaethau, ac i sefydlu Rhwydweithiau Rhieni lleol. Gobeithio y bydd rhannau ohoni hefyd o fudd i rieni eu hunain, yn enwedig rhai sydd eisoes yn cyfrannu at waith y Partneriaethau neu a fyddai'n hoffi gwneud hynny.

Defnyddio'r Canllawiau Hyn

Yn Adran 1, rhoddir y rhesymau dros gynnwys rhieni ac awgrymir model ar gyfer eu cyfranogiad. Ehangir ar hyn yn Adran 3, gyda nifer o enghreifftiau ymarfer.

Mae Adran 2 yn sôn am y rhwystrau i gyfranogi ac yn awgrymu proses i baratoi sefydliadau a rhieni fel y gellir goresgyn y rhwystrau hyn. Gall partneriaethau ddefnyddio hyn i fesur faint o gynnydd a wnaethant gyda'u hymarfer hyd yma, a pha gamau pellach y mae angen iddynt eu cymryd.

Yn Adran 4, edrychwn ar rôl fforymau rhieni a rhwydweithiau rhieni. Ei ddiben yw cynnig cymorth i unrhyw un sy'n ystyried sefydlu rhwydwaith.

Yn Adran 5, trafodwn faterion yng nghyswllt cydraddoldeb ac amrywiaeth. Rhoddir gwybodaeth am gysylltiadau ac adnoddau a allai helpu partneriaethau i ymgysylltu â rhieni sydd angen cymorth ychwanegol arnynt, neu ffordd wahanol o wneud pethau.

Mae'r atodiadau yn rhoi'r cefndir polisi a deddfwriaethol i gyfranogiad rhieni, gwybodaeth am ddulliau ymgynghori a gwerthuso, crynodeb o'r gwahanol ffyrdd y gall rhieni gyfranogi, a chysylltiadau defnyddiol pellach.

Adran 1 PAM CYFRANOGIAD RHIENI? BETH Y MAE'N EI FEDDWL?

Y Diffiniad o Rieni

Defnyddir y term "rhieni" yn y ddogfen hon i ddisgrifio unrhyw un o'r canlynol sy'n chwarae rôl bwysig mewn magu plentyn: mamau, tadau, gofalwyr maeth, rhieni sy'n mabwysiadu, llys-rieni, neiniau a theidiau ac, weithiau, brodyr a chwiorydd neu berthnasau eraill.

Pam cynnwys rhieni mewn cynllunio, datblygu a gwerthuso gwasanaethau?

Nod cynnwys rhieni yn y pen draw yw gwella ansawdd bywyd plant a'u teuluoedd. Mae gwasanaethau sydd wedi cael eu datblygu ar y cyd â rhieni yn gallu bod yn fwy perthnasol ac ymatebol i wahanol anghenion ac mae rhieni'n fwy tebygol o'u defnyddio.

Mae rhieni'n adnabod eu plant a nhw sy'n gyfrifol ac yn atebol drostynt. Maent yn adnabod eu hardaloedd a'u cyfleusterau lleol ac fe wyddant beth yw'r materion sy'n bwysig iddynt yn lleol.

Mae rhieni sy'n ymgysylltu'n dda â gwasanaeth, ac sy'n teimlo eu bod wedi elwa ohono, yn fwy tebygol o gynnig cymorth i eraill, o weithredu fel gwirfoddolwyr, addysgwyr neu fentoriaid i'w cyd-rieni, ac o fod o fudd i'r gymuned. Ceir nifer o enghreifftiau da o hyn yng Nghymru.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi blaenoriaethu mentrau i hyrwyddo hawliau a chyfranogiad plant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi hyrwyddo sefydlu Partneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc ym mhob ardal awdurdod lleol, er mwyn dod ag awdurdodau lleol, y GIG a'r sector gwirfoddol at ei gilydd i gynllunio gwasanaethau ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Rhaid iddynt wneud yn siŵr bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cymryd rhan yn y gwaith a wneir ganddynt. Mae hyn yn cynnwys rhieni a phlant sydd angen gwasanaethau arbenigol arnynt, fel rhai iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau, felly mae angen meithrin cysylltiadau agos â'r gwasanaethau hyn.

Er na fyddai unrhyw un yn honni bod cyfranogiad plant a phobl ifanc wedi dod yn beth cyffredin iawn eto, mae llawer iawn o gynnydd wedi'i wneud o fewn y Partneriaethau a'r sefydliadau sy'n aelodau ohonynt, i roi llais i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys hybu eu cyfranogiad drwy ddigwyddiadau anffurfiol a thrwy ddefnyddio'r We a thechnoleg ffonau symudol, yn ogystal ag mewn cyfarfodydd. Mae rhai Partneriaethau wedi datblygu strategaethau ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc. Mae eraill wedi ei nodi fel blaenoriaeth.

Bellach mae angen datblygu proses debyg ar gyfer rhieni, sydd ar hyn o bryd yn brin o gynrychiolaeth ar lefel bolisi a chynllunio yn y rhan fwyaf o bartneriaethau, er gwaethaf eu cyfraniad ar lefel wasanaeth.

> "Mae'n gyfarwydd bellach. Rydym yn siarad ar sail gwybodaeth yr ydym wedi'i hennill dros y blynyddoedd." (Rhiant ar Bartneriaeth Pobl Ifanc)

Mae'n bwysig cofio y bydd y Partneriaethau Fframwaith hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc, yn ogystal â rhieni, yn y gwaith o gynllunio. Mae angen i Bartneriaethau fod yn sensitif i'r cydbwysedd dylanwad rhwng rhieni a phlant/pobl ifanc. Lle ceir gwrthdaro budd, rhaid i'r penderfyniadau ystyried lles a hawliau'r plentyn, a hawliau pobl ifanc, fel a nodir yn 'Ymestyn Hawliau'.[2]

Gellir dysgu gwersi o'r broses o gynnwys pobl ifanc, ond ceir gwahaniaethau hefyd. Er enghraifft, gall fod yn anoddach dod o hyd i ystod eang o rieni.

Ar wahân i resymau'n ymwneud ag ymarfer da, mae rhesymau cyfreithiol a pholisi hefyd dros gynnwys rhieni ar lefel strategol - gweler Atodiad 1.

Mae angen i waith yn y maes hwn gael ei weld fel rhan o ymgyrch ehangach i rymuso'r dinesydd a chadarnhau hawliau'r plentyn.

Model ar gyfer Cyfranogi

Mae cyfranogi'n ymwneud â chael llais mewn gwneud penderfyniadau ar bob lefel. Ceir nifer o fodelau cyfranogi, ond ffocws y rhan fwyaf yw'r gwahaniaeth rhwng **gwybodaeth, ymgynghori a chyfranogi**. Mae rhai yn disgrifio lefelau cyfranogi yng nghyswllt ysgol, gyda'r pŵer yn trosglwyddo o sefydliadau i ddefnyddwyr gwasanaeth a thuag at ben yr ysgol. Mae llawer o bobl yn credu eu bod wedi cael eu defnyddwyr i gyfranogi ond y cyfan y maent wedi'i wneud yw ymgynghori. Dim ond un elfen o gyfranogi yw hyn.

> Weithiau, mae defnyddwyr gwasanaeth yn rhan o gŵrp ymgynghorol i gymeradwyo cynlluniau gwasanaeth neu bolisïau, ond nid yw hyn yn gadael i ddefnyddwyr gwasanaeth gyfrannu at lunio'r cynlluniau neu'r polisïau yn y lle cyntaf" (Carr 2004)[3]

Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn deall yn glir yr hyn sy'n cael ei gynnig i rieni a bod parodrwydd diffuant i rannu penderfyniadau.

I bwrpas y canllawiau hyn, rydym yn addasu model a ddatblygwyd gan Wilcox[4] ar gyfer Sefydliad Joseph Rowntree. Mae Wilcox yn disgrifio'r pum lefel o gyfranogi. Yng nghyswllt rhieni, y rhain fyddai:

- Gwybodaeth - dweud wrth rieni beth sy'n cael ei gynllunio.
- Ymgynghori - cynnig opsiynau i rieni, gwrando ar adborth ond heb ofyn am unrhyw syniadau newydd ganddynt.

- Penderfynu Gyda'ch Gilydd - annog rhieni i feddwl am opsiynau eraill a chynnig cyfle iddynt gael gwneud penderfyniadau ar y cyd.
- Gweithredu Gyda'ch Gilydd - lle mae rhieni a gweithwyr proffesiynol yn penderfynu gyda'i gilydd ar yr opsiwn gorau ac yn sefydlu partneriaeth i'w weithredu.
- Cefnogi Gweithredu Annibynnol - lle mae grwpiau o rieni lleol yn cael cynnig cyllid, cyngor neu gymorth arall i ddatblygu eu hagenda, eu canllawiau neu eu gwasanaethau eu hunain.

Nid y lefel uchaf yw'r lle gorau i fod bob tro - bydd gwahanol lefelau yn addas mewn gwahanol amgylchiadau. Yn ymarferol, efallai y bydd angen gweithredu ar wahanol lefelau ar yr un pryd.

Enghraifft o sut y byddai'r model yn gweithio'n ymarferol:

Mae rhai rhieni yn rhan o weithgor sy'n edrych ar sut orau i ddarparu gwasanaethau cefnogi teuluoedd yn eu hardal. Penderfynir mai canolfan blant a fyddai'n cwrdd â'u hanghenion nhw ac anghenion eu plant orau (penderfynu gyda'ch gilydd). Mae'r rhieni yna'n cyfrannu at y gwaith o gynhyrchu'r cynlluniau ar ei chyfer (gweithredu gyda'ch gilydd).

Unwaith y daw'r arian ar gael, mae'r rhieni'n rhan o'r broses o recriwtio Rheolwr y Ganolfan (gweithredu gyda'ch gilydd). Mae Rheolwr y Ganolfan yn gofyn i rai rhieni a fydd yn defnyddio'r gwasanaeth i roi eu barn am liwiau i beintio'r ystafelloedd. Mae eisiau i'r ganolfan deimlo'n ysgafn ac yn braf, felly dim ond rhai lliwiau y gall y rhieni edrych arnynt. Y rheolwr sy'n gwneud y penderfyniad terfynol, ond mae wedi ystyried barn y rhieni i gyd ac maent yn teimlo ei bod wedi gwrando arnynt (ymgynghori).

Weithiau, gwybodaeth neu ymgynghori yw'r cyfan sydd ei angen. Fodd bynnag, dylai fod gan rieni ddewis. Dylent gael cynnig cyfle i ddylanwadu'n wirioneddol ar bob lefel.

Model Wilcox yw un ffordd o edrych ar gyfranogi, ond gall helpu sefydliadau i asesu faint o lais sydd gan rieni mewn gwirionedd. Mae angen i'r Partneriaethau Fframwaith benderfynu ar eu diffiniad eu hunain, a cheisio sicrhau:

- Cyfranogi ar bob lefel lle gwneir penderfyniadau yng nghyswllt materion sy'n effeithio ar blant a rhieni, a
- Rhoi llais i ystod eang o rieni.

(Mae'r syniadau yn y ddogfen hon wedi eu haddasu o ymchwil gan Carr (2004) ac o ddau arweinlyfr defnyddiol: Parent Participation: Improving services for disabled children , Cyngor Plant Anabl a Cyswllt â Theulu (2004) a Parent Participation: Improving Services for children and families gan y Gynghrair Polisi Teuluoedd (2005). Gwnaed cyfraniadau hefyd gan rieni a fu'n eistedd ar bartneriaethau strategol yng Nghymru, a chan weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi rhieni).

Adran 2 PARATOI I GYNNWYS RHIENI

Deall y Rhwystrau

"Os ydych eisiau i rieni chwarae mwy o ran, rhaid ichi ofyn iddynt beth y maen nhw ei eisiau" (aelod o Rwydwaith Rhieni)

Y Rhwystrau i Rieni

- Mae gan rieni nifer o **alwadau ar eu hamser** ac mae'n bosibl mai'r rhai sydd fwyaf angen gwasanaethau arnynt yw'r rhai sydd o dan fwyaf o straen hefyd. Ar adegau, efallai na fyddant eisiau gwneud dim ond derbyn gwasanaeth yn oddefol ac mae ganddynt berffaith hawl i hynny. Fodd bynnag, dengys profiad fod hyd yn oed rhieni mewn cyfyngder yn barod i gyfrannu os rhoddir cymorth iddynt ac, wrth gwrs, gall eu hamgylchiadau newid gydag amser.
- Mae rhai rhieni'n teimlo eu bod wedi eu **dieithrio o wasanaethau** ac yn gyndyn o roi adborth neu o gyfrannu mewn ffyrdd eraill. Mae eu barn yn bwysig, ond mae eu cael i gyfranogi yn her.
- Efallai nad yw rhai rhieni **eisiau defnyddio unrhyw wasanaeth** yn rheolaidd (yn enwedig rhieni o grwpiau ymylol) felly maent 'allan ohoni' pan fydd cynlluniau'n cael eu gwneud.
- Bydd nifer o rieni'n amheus o gyfarfodydd. Efallai fod **llythrennedd** yn broblem a/neu efallai fod gweithwyr proffesiynol yn defnyddio gormod o **jargon** heb yn wybod iddynt. Efallai fod problem o gydbwysedd rhwng y **rhywiau** os oes mwy o un rhyw na'r llall yn y cyfarfodydd.
- Gall **gweithwyr proffesiynol** ymddangos fel pe baent yn **bwerus iawn**, ac yn hollwybodus, yn anfwriadol a heb fod yn ymwybodol o hynny.
- Efallai fod angen cymorth gyda **mynediad** neu **gyfathrebu** ar bobl, er enghraifft drwy ddarparu gwasanaeth cyfieithu neu iaith arwyddion.
- Efallai fod **problemau ymarferol** fel trafnidiaeth, gofal plant neu oriau gweithio. Mewn arolwg diweddar (heb ei gyhoeddi eto) gan Cyswllt â Theulu Cymru, dywedodd rhieni plant anabl mai'r pethau hyn oedd y rhwystrau mwyaf i gyfranogi.
- Efallai nad yw rhieni'n teimlo bod eu **cyfraniadau'n cael eu gwerthfawrogi**, yn enwedig os ymgynghorwyd â nhw yn y gorffennol ond teimlwyd na wnaeth hyn ddim **gwahaniaeth** ac na wnaeth pethau newid. Buan y mae pobl yn mynd i deimlo wedi dadrithio. Problem gyffredin yw diffyg adborth i bobl sydd wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad.
- Mae angen gwasanaethau ar rieni ar adeg arbennig yn eu bywydau, ac **yna maent yn symud ymlaen.**
- Mae angen llawer iawn o **gymorth i gyfrannu** ar rieni os nad ydynt yn eglur iawn wrth siarad neu heb lawer o hyder. Ar y llaw arall, mae rhieni sy'n **fwy rhugl** a hyderus yn canfod nad yw rhai

gweithwyr proffesiynol yn ystyried eu barn i fod yn nodweddiadol o farn rhieni eraill - ni all unrhyw ennill yn y sefyllfa hon.

"Ar y dechrau roeddwn yn teimlo fel pysgodyn allan o ddŵr fel rhiant - ond roeddwn yn dod i wybod mwy o hyd" (Rhiant ar bartneriaeth strategol)

Y Rhwystrau i Weithwyr Proffesiynol

- Mae cyfranogi'n **cymryd mwy o amser** na chyflawni pethau'n unig.
- Mae ymdrechion aflwyddiannus i gael rhieni i gyfranogi **yn gallu arwain at golli diddordeb.**
- Efallai fod **capasiti ac adnoddau** yn brin ac mae cyfranogi'n costio.
- Mae'r ffaith bod **angen ymgysylltu'n barhaus** â rhieni newydd wrth i eraill symud ymlaen (er enghraifft gyda gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar) yn gallu gwneud galwadau trwm ar wasanaethau sydd o dan straen.
- Os nad yw sefydliadau **wedi paratoi** ar gyfer cyfranogi, gall fod yn anodd i weithwyr unigol wneud y pethau y byddent yn dymuno ei wneud.
- Efallai fod problemau ychwanegol oherwydd **gwasgariad daearyddol** y teuluoedd.
- Efallai fod staff / rheolwyr yn poeni am gyfranogi oherwydd na chawsant **unrhyw hyfforddiant** mewn ymarfer a thechnegau cyfranogi.
- Gall rhieni sy'n uchel eu cloch **fod yn frawychus braidd** i staff sydd heb brofiad o gyfranogi.
- Efallai yr ofnir y bydd gan rieni **ddisgwyliadau** ynghylch gwasanaethau na ellir eu darparu.
- Mae'n cymryd **rhywun dewr** i wahodd pobl i herio'r ffordd yr ydych yn gwneud penderfyniadau!

Goresgyn y Rhwystrau - proses

Gellir goresgyn nifer o'r ofnau ynghylch cyfranogi drwy baratoi'n drylwyr a thrwy gymryd camau bach sy'n dangos gwerth rhoi rôl i rieni. Gall y broses isod (a addaswyd o ymchwil gan Carr, 2004) helpu i werthuso lle'r ydych ar hyn o bryd a beth y mae angen ichi ei wneud yn lleol i oresgyn y rhwystrau i gyfranogi.

a) Penderfynu pwy fydd yn arwain

Mae angen amser ac adnoddau ar gyfranogi. Mae rhai gwasanaethau yng Nghymru wedi datblygu diwylliant o gyfranogi heb weithiwr arbenigol, oherwydd bod arweiniad clir wedi dod gan reolwr neu aelod allweddol o staff.

Fodd bynnag, mae ymchwil i gyfranogiad defnyddwyr yn awgrymu bod newid gwirioneddol yn dibynnu ar faint o amser a dreulir gan y rheolwyr

a'r staff **i gyd** yn gwrando ar ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cael i gyfranogi. (Carr 2004)

Mae pawb yn gyfrifol am gyfranogi, ond rhaid i rywun neilltuol ei symud ymlaen. Yn ôl profiad y Partneriaethau Pobl Ifanc, awgrymir y gallai fod yn ddefnyddiol - mewn sefydliadau neu rwydweithiau mawr - cael rhywun sy'n gallu rhoi amser neilltuol i ddatblygu cyfranogiad.

Mae modelau posibl eraill yn cynnwys:

- dod o hyd i **bencampwr** cyfranogi ar y staff/grŵp rheoli
- sefydlu **grŵp llywio** i symud yr agenda gyfranogi yn ei blaen (mae gan rai partneriaethau is-grwpiau cyfranogi)
- penodi ymgynghorwyr i 'sbarduno'r' broses neu i helpu i ddatblygu cynllun gweithredu.

Mae gan y rhain i gyd oblygiadau o ran adnoddau a chapasiti staff.

Rôl y gweithiwr datblygu cyfranogi

O ystyried cymhlethdod cynorthwyo gyda magu plant, mae nifer o bartneriaethau wedi mynd ati i ddatblygu strategaethau magu plant. Mae rhai yn ystyried penodi cydlynwyr ar gyfer gwaith magu plant. Gall y rôl hon a gwaith y gweithiwr datblygu cyfranogi orgyffwrdd, ond rolau gwahanol ydynt. Mewn byd delfrydol, ni fyddai disgwyl i un gweithiwr gymryd y ddwy rôl. Os mai dyma'r unig ddewis fforddiadwy, mae'n bwysig cael disgwyliadau clir iawn, ac i fod yn realistig am beth y gall un person ei gyflawni.

Wrth benodi gweithiwr datblygu cyfranogi, mae angen penderfynu ym mhle yn y sefydliad y gallai'r person hwn gael y dylanwad mwyaf, sut y bwriedir cefnogi a hyfforddi'r person hwn a pha gyswllt fydd y person yn ei gael gyda'r rhwydwaith o ddarparwyr gwasanaeth yn yr ardal.

b) Sicrhau bod y sefydliad yn ymrwymedig i gyfranogi a bod y staff yn barod ar ei gyfer.

Dylid sicrhau bod pawb yn deall beth y mae cyfranogi yn ei feddwl - cytuno ar ddiffiniad.

Dylid penderfynu sut i dalu am gostau cyfranogi - fel hyfforddi staff a rhieni, treuliau i rieni (teithio a gofal plant), cost deunyddiau priodol, gwasanaethau cyfieithu a dehongli.

Dylid sicrhau bod y staff i gyd yn deall gwerth cyfranogi a bod ganddynt ddigon o **gefnogaeth i wneud iddo weithio**. Gallai hyn olygu trefnu hyfforddiant mewn dulliau cyfranogi i staff a rheolwyr. Gallai olygu cyflwyniadau gan rieni.

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVS) yn cynnal Participation Cymru, prosiect unigryw yng Nghymru, a sefydlwyd i helpu i brif ffrydio penderfyniadau cyfranogol yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol. Mae'n chwarae rhan o bwys mewn Cymunedau'n Gyntaf a Chreu'r Cysylltiadau. Mae Participation Cymru'n darparu hyfforddiant, cymorth, gwybodaeth a chyfarwyddyd polisi mewn dulliau cyfranogol. (mevans@wcva.org.uk; 0292043 1729 levans@wcva.org.uk)
029 2043 1703

Gall Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol ddarparu hyfforddiant am ddim i rieni sy'n mynychu cyfarfodydd, megis sgiliau pwyllgor a chynrychioli'r Sector Gwirfoddol.

Rhaid sicrhau bod y sefydliad **yn barod i ymateb** i farn defnyddwyr. Sut y bydd gwybodaeth gan rieni yn cael ei dadansoddi, ei phwyso a'i defnyddio?

Rhaid delio gyda **phryderon ynghylch disgwyliadau**. Os yw rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u gwerthfawrogi, byddant yn gallu cyfrannu at drafodaethau aeddfed am adnoddau a blaenoriaethau. Mae nifer o rieni'n rhoi eu hamser yn wirfoddol, er enghraifft fel cyfeillion drwy'r cynllun cyfeillio, i addysgu eu cyd-rieni neu fel gwirfoddolwyr gofal plant.

Rhaid bod yn glir ynghylch beth yr ydych eisiau ei gyflawni ac am unrhyw **gyfyngiadau**.

Rhaid bod yn ymwybodol o **bŵer** - efallai na fyddwch yn teimlo'n bwerus, ond yn y cyd-destun hwn mae gennych bŵer. Rhaid gwneud ymdrechion cydwybodol i sicrhau cydbwysedd pŵer yn y berthynas.

> "Mae rhai sefydliadau wedi arfer â gweithio gyda rhieni. Mae hyn yn ddieithr i eraill a medrant ei weld fel bygythiad. Weithiau, mae'n cymryd amser i bobl weld gwerth rhoi rôl i rieni." (Rhiant ar Bartneriaeth Plant)

Dylid penderfynu sut i **fesur llwyddiant.**

Rhaid edrych ar fformat y **cyfarfodydd**. A ydynt yn gyfeillgar i rieni? (gweler y blwch testun ar gyfarfodydd sy'n gyfeillgar i rieni t.13)

c) Mapio'r Grwpiau a'r Gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd i rieni yn eich ardal

Chwiliwch am **grwpiau a gwasanaethau rhieni yn eich ardal** a chysylltwch gyda nhw fel man cychwyn. Mae mudiadau gwirfoddol a chymunedol yn aml iawn mewn sefyllfa dda i helpu gydag ymgynghori ac efallai eu bod yn gwybod am rieni sydd eisiau cyfrannu syniadau.

Chwiliwch am grwpiau o **rieni lle nad oes grwpiau cymorth lleol ar eu cyfer.** Bydd angen mwy o ymdrech i ymgysylltu â'r rhain. Neu, fel arall, bydd y bobl hyn yn parhau i gael eu hallgáu. Mae angen penderfynu'n lleol ynghylch pwy fydd yn gyfrifol am hyn (am fwy o wybodaeth am ymgysylltu â grwpiau sydd wedi eu hallgau, gweler Adran 5).

Rhannu llwyddiant - mae'n debyg y bydd rhywfaint yn eich ardal eisoes. Gwnewch yn siŵr fod pobl yn ymwybodol o'r arferion da. Gallai hyn olygu lledaenu arferion da drwy wefannau, cylchlythyrau a chyfarfodydd staff.

d) Gweithio gyda grŵp o rieni i ddatblygu egwyddorion a safonau cyfranogi

(Dylai'r ymarfer mapio uchod ganfod grŵp o rieni sy'n fodlon cymryd rhan.)

Mae safonau'n sicrhau bod pawb yn gwybod beth i'w ddisgwyl ac yn dangos ymrwymiad sefydliadol. Mae rhai gwasanaethau wedi datblygu Siarter Cyfranogiad Defnyddwyr/Gofalwyr i nodi'r egwyddorion a'r safonau.

Nid yw Llywodraeth y Cynulliad eisiau rhagnodi safonau manwl ar gyfer cyfranogiad rhieni, gan fod y broses o lunio safonau a'u gwneud yn berthnasol i'ch amgylchiadau chi yr un mor bwysig â'r safonau eu hunain. Rhaid eu cyd-drafod a rhaid iddynt fod yn gyraeddadwy.

Rydym yn argymell bod Partneriaethau yn gweithio gyda rhai rhieni lleol i ddatblygu cyfres o egwyddorion a safonau sy'n realistig ac sy'n ddealladwy i ystod o rieni.

Dylai'r safonau nodi: pam fod cyfranogi'n bwysig, sut y gall rhieni ddisgwyl cael eu cynnwys, pa gymorth y medrant ddisgwyl ei gael (fel hyfforddiant, treuliau, paratoi ar gyfer cyfarfodydd, amseriad cyfarfodydd), sut y rhoddir adborth iddynt a beth fedrant ei wneud os ydynt yn anhapus â'r ffordd y maent yn cael eu cynnwys. Bydd yr enghreifftiau isod o egwyddorion a safonau yn eich helpu i gynhyrchu rhai eich hun.

Mae'r Cyngor Gofal wedi datblygu safonau drafft ar gyfer cyfranogiad defnyddwyr/gofalwyr. Datblygwyd y rhain gyda defnyddwyr a gofalwyr ac, ar hyn o bryd, mae'r Cyngor wrthi'n ymgynghori arnynt. Bydd y fersiwn derfynol ar wefan y Cyngor Gofal nes ymlaen yn 2006. (www ccwales.org.uk)

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi safonau a siarter defnyddwyr/gofalwyr ar gyfer cyfranogi mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'r safonau'n cynnwys rhestr wirio ddefnyddiol y gellid ei haddasu. ("Stronger in Partnership – Involving Service users and Carers in the design, planning delivery and evaluation of mental health services in Wales", Canllawiau Gweithredu Polisi 2004, Atodiad 3)

Mae'r Uned Gyfranogi wedi gweithio gyda phobl ifanc i baratoi safonau drafft sy'n 'gyfeillgar i'r defnyddiwr' er mwyn hwyluso eu cyfranogiad. (Achub y Plant 029 2039 6838)

e) Meithrin Gallu Rhieni i Gyfranogi

Annog diwylliant o gyfranogi mewn sefydliadau lleol.

Mae cyfranogi effeithiol yn dechrau gyda'r ffordd y mae rhieni'n cael eu trin pan fyddant yn defnyddio gwasanaeth neu'n holi ynghylch rhywbeth. Os yw rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu parchu o'r dechrau, ac os rhoddir dewis iddynt, mae peth o'r gwaith sylfaen eisoes wedi'i wneud.

Gall y dull hwn fod yr un mor berthnasol i waith statudol ag i waith anstatudol, er enghraifft mewn Cynadleddau Grwpiau Teulu yng Ngwynedd ac mewn mannau eraill, dull lle cefnogir teuluoedd estynedig gan weithwyr proffesiynol i wneud penderfyniadau am les a gofal eu plant.

Gall prosiectau a gwasanaethau sydd â diwylliant o gyfranogi wneud llawer iawn i wella hyder rhieni o dan anfantais. Medrant roi'r profiad o gyfranogi mewn cyfarfodydd iddynt, ac o wneud penderfyniadau ar y cyd. Gall hyn fwydo i bartneriaeth ar lefel strategol.

Pan fydd rhieni'n cytuno i ymuno â Phartneriaeth, bydd angen cynefino a chymorth arnynt, a hyfforddiant efallai hefyd. Mae angen ystyried sut y darperir unrhyw gymorth a hyfforddiant ymlaen llaw.

Mae angen **yr un wybodaeth** ar rieni â phawb arall, ond dylid cadw pethau'n syml.

Byddwch yn hyblyg ynghylch gwahanol ffyrdd o weithio. Bydd eistedd mewn cyfarfod ffurfiol ynghanol twr o bapurau ond yn apelio at nifer fach o rieni, ond gellir cynnwys eraill mewn gwahanol ffyrdd (e.e. mae rhai partneriaethau yn trefnu cyflwyniadau gan grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae gan eraill Rwydweithiau Rhieni).

Gwnewch yn siŵr y gallwch dalu am gostau cyfranogi.

f) Meddwl am yr holl Gyfleoedd sydd ar gael i rieni gael cyfranogi a rhoi Systemau yn eu Lle i sicrhau Cyfranogiad ar bob Lefel.

Yn Adran 3 yn y canllawiau hyn, rhoddir enghreifftiau manwl o gyfleoedd i gyfranogi, drwy ddefnyddio Model Wilcox.

g) Monitro a Gwerthuso Cyfranogiad Rhieni

Mae ymchwil ddiweddar wedi canfod bwlch mewn gwybodaeth am effaith cyfranogi ar wasanaethau (Carr, 2004). Mae Carr yn argymell y dylid datblygu technegau monitro a gwerthuso gyda defnyddwyr gwasanaeth. Cynhwysir un enghraifft o sut y gwnaed hyn yn safonau drafft y Cyngor Gofal.

Mae'r Cyngor Gofal wedi ymrwymo i fonitro rôl defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn ei waith, ac i gyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol. Y mesurau llwyddiant a awgrymwyd oedd: adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth; twf y gronfa ddata o gysylltiadau; cynnydd yn nifer ac amrywiaeth y defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr sy'n cyfranogi yng ngweithgareddau'r Cyngor Gofal. Maent hefyd wedi ymrwymo i werthuso pa newidiadau sydd wedi digwydd o ganlyniad i fewnbwn defnyddwyr.

Dylai partneriaethau ystyried sut y byddant yn mesur cynnydd, nid yn unig o ran nifer y rhieni sy'n cyfrannu, ond a ydynt yn llwyddo i gyrraedd ystod ehangach o rieni a pha wahaniaeth y mae hyn yn ei wneud i'r broses o wneud penderfyniadau.

Gwneud i Gyfarfodydd Weithio i Rieni *

Ffactorau Ymarferol

Sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar adegau cyfleus

Dylid sôn am gostau trafnidiaeth, gofal plant a threuliau eraill (byddwch yn rhagweithiol - efallai fod rhieni'n rhy swil i ofyn).

Trefnu i gyfarfod yn rhywle sy'n gyfleus a hygyrch.

Paratoi - rhoi eglurhad syml o'r hyn y mae'r grŵp partneriaeth yn ei wneud, beth yw pwrpas y cyfarfodydd, pwy sy'n mynychu, pa mor aml y cynhelir hwy, pa mor hir y maent yn para a sut y gall y rhiant chwarae rôl. (Mae hyn yn cynnwys: rhoi eitemau ar yr agenda, protocol ar gyfer siarad mewn cyfarfodydd, beth sy'n gyfrinachol a beth nad yw'n gyfrinachol, pryd y medrant ddisgwyl derbyn cofnodion, ac yn y blaen)

Os gall rhiant fforddio'r amser, gallai proses gynefino i edrych ar y gwaith sy'n cael ei gefnogi gan y partneriaethau fod yn ddefnyddiol iawn.

Helpu Rhieni i Gyfranogi / Cael Pawb i Gyflwyno eu Hunain a rhoi Labeli Enw i bawb

Dylid cadw'r gwaith papur yn syml ac yn gryno.

> "Roedd y cofnodion fel iaith ddieithr imi - yn llawn o jargon a byrfoddau" (Rhiant ar grŵp partneriaeth)

Defnyddiwch fformatau sy'n berthnasol i anghenion y rhieni (gall hyn gynnwys cyfieithwyr, arbenigwyr iaith arwyddion, dogfennau print bras, gan ddibynnu ar anghenion y rhiant).

Dylid gwahardd jargon (trefnu bod rhieni'n gallu defnyddio signal neu godi cerdyn mewn cyfarfodydd os na fyddant yn deall rhywbeth. Rhowch eirfa byrfoddau i bobl neu eglurwch nhw pan fyddwch yn eu defnyddio).

Dylid sicrhau bod gan rieni gyfle i siarad, heb roi rhywun mewn picil.

Peidiwch ag anwybyddu cyfraniadau - gwnewch i rieni deimlo eich bod yn eu gwerthfawrogi.

Diolchwch i bawb am eu cyfraniadau ar ddiwedd y cyfarfod.

Gall digwyddiadau adeiladu tîm/diwrnodau 'cwrdd i ffwrdd' fod yn ddefnyddiol, ond rhaid eu trefnu i fod yn gyfleus i rieni.

Gwnewch yn siŵr fod rhieni sy'n gweithredu fel cynrychiolwyr yn derbyn papurau mewn pryd iddynt fedru ymgynghori gyda phobl eraill (mae hyn yn berthnasol i weithwyr proffesiynol hefyd).

Trefnwch gyfarfod i adolygu pethau ar ôl sbel, i weld sut y mae pethau'n gweithio o safbwynt y rhieni.

*addaswyd o arweinlyfrau y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol.

Adran 3 Y PUM LEFEL O GYFRANOGIAD RHIENI - GWEITHREDU'R MODEL

Lefel Un - GWYBODAETH

Mae eisiau ac angen gwybodaeth ar rieni, er enghraifft, am ba wasanaethau sydd ar gael yn lleol neu ba wasanaethau sydd ar y gweill. Mae angen iddynt gael gwybod am ba wasanaethau y mae ganddynt hawl i'w derbyn. Dylent fod yn gallu derbyn gwybodaeth a gwasanaethau heb orfod cyfranogi o gwbl, os ydynt yn dymuno hynny.

a) Pa Wybodaeth?

- Gwybodaeth am wasanaethau lleol

Dywedodd y rhieni a gyfrannodd at y canllawiau hyn mai **diffyg gwybodaeth i rieni** oedd un o'r problemau mwyaf. Roeddent yn teimlo y dylai fod gan weithwyr proffesiynol gyfeiriaduron a ddiweddarir yn gyson o wasanaethau lleol, grwpiau cefnogi a sefydliadau sy'n darparu cyngor etc, a roeddent eisiau i weithwyr fod yn **fwy rhagweithiol** gyda dweud wrth rieni beth sydd ar gael. Mae rhai Partneriaethau yn gweithio ar hyn, er enghraifft mae Partneriaeth Conwy yn paratoi cyfeiriadur o wasanaethau magu plant.

Un ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol yw'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Blant, a rhaid darparu hwn yn statudol. Gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad o Wasanaethau Gwybodaeth i Blant yw eu bod yn rhan gref, gweladwy a phrif ffrwd o'r ddarpariaeth gwasanaethau gan Awdurdodau Lleol, a bod teuluoedd yn eu deall yn glir ac yn eu defnyddio'n eang.

Efallai fod eisiau gwybodaeth ar rieni am sut i herio penderfyniad a wnaed gan ddarparwr gwasanaeth, fel ysgol neu awdurdod addysg lleol. Dylai gweithwyr proffesiynol fod mewn sefyllfa i gyfeirio rhieni at sefydliadau a allai eu helpu i herio eraill, fel SNAP Cymru (manylion yn Adran 4).

- Gwybodaeth am anghenion plant a magu plant

Gall hyn fod yn ysgrifenedig neu ar ffurf sesiynau gwybodaeth. Efallai fod rhieni'n gyndyn o ofyn i asiantaethau'n uniongyrchol, rhag ofn i bobl feddwl eu bod yn fethiant, neu oherwydd profiadau yn eu bywydau eu hunain. Mae medru cael gafael ar wybodaeth mewn ffyrdd eraill yn gallu bod o fudd mawr.

Yn Rhondda Cynon Taf, mae sesiynau gwybodaeth cyn ysgol i rieni plant dwyflwydd oed wedi denu nifer fawr o rieni (hyd at 50 i bob sesiwn). Dechreuir gyda sesiwn anffurfiol yn yr ysgol a gofynnir i rieni pa gyngor/gwybodaeth yr hoffent ei dderbyn erbyn y tro nesaf. Cynhaliwyd sesiynau gwybodaeth mewn gwahanol gymunedau hefyd, mewn ymateb i arolwg o brif bryderon y rhieni.

- Gwybodaeth am ddatblygiadau sydd ar y gweill

Gall y wybodaeth hefyd fod am ddatblygiadau sydd ar yr gweill. Weithiau, mae dangos enghraifft i bobl o wasanaeth sydd ar y gweill yn fwy effeithiol na dweud wrthynt. Gall hyn fod yn fan cychwyn ar gyfer rôl fwy gweithredol:

Dechreuodd staff o Gychwyn Cadarn Caerdydd ddatblygu gofod yn Neuadd Bedyddwyr Trelái fel ystafell synhwyrau i blant yn ystod eu cylch chwarae.

Sylweddolwyd nad oedd y rhieni wedi derbyn unrhyw ymgynghoriad ynghylch hyn a threfnwyd i fynd â nhw i Ganolfan Blant ym Mryste i weld ystafell synhwyrau ac i ddeall ei phwrpas. Gyda'r wybodaeth newydd hon, gallodd y rhieni helpu i wneud y cyfarpar ac i addurno'r ystafell.

"Cymerodd hyn lawer mwy o amser na phe bai'r staff wedi gwneud y gwaith, ond mae'r manteision o gael y rhieni a'r plant i gyfrannu at ddylunio a gweithredu'r gwasanaeth wedi bod yn aruthrol" (Swyddog Cychwyn Cadarn)

b) Ffyrdd o hysbysebu gwybodaeth

Yr her gyda darparu gwybodaeth yw bod â systemau yn eu lle sy'n sicrhau **bod gwybodaeth yn cyrraedd gymaint o rieni** â phosibl, tra'n ystyried y **gwahanol ffyrdd y gall pobl gael gafael arni**. Mae hyn yn cynnwys rhoi sylw i faterion iaith, llythrennedd, rhyw, unrhyw nam ar y golwg a'r mannau gorau i hysbysebu gwybodaeth i wahanol gynulleidfaoedd.

Gall rhieni fod yn gymorth mawr wrth gynhyrchu **gwybodaeth sy'n gyfeillgar i'r defnyddiwr**. Mae nifer o brosiectau a gwasanaethau yn rhoi rôl i rieni gyda dylunio gwybodaeth.

Mae angen cael gwahanol ffyrdd o rannu gwybodaeth, er mwyn cyrraedd ystod o wahanol rieni:

- Cyfeiriaduron a gwefannau (a rhaid diweddaru'r rhain yn gyson)
- Tafod leferydd e.e. rhaeadru gwybodaeth drwy grwpiau cymunedol a mudiadau lleol sy'n gweithio gyda rhieni a phlant
- Erthyglau mewn cylchlythyrau cymunedol a phapurau lleol
- Fideos gwybodaeth a DVDs

Gyda mentrau mwy:

- Deunyddiau gweledol, arddangosfeydd a thaflenni mewn adeiladau cyhoeddus, meddygfeydd ac ati
- Siarad â phobl wrth gât yr ysgol ac mewn parciau lleol, yn ogystal ag mewn cyfarfodydd cyhoeddus
- Defnyddio'r radio lleol neu'r teledu.

Lefel Dau - YMGYNGHORI

"Nid mater o fynychu cyfarfodydd yn unig yw ymgynghori"
(Aelod o Rwydwaith Rhieni)

Materion i'w Hystyried

Cyn Ymgynghori:

- Ym Model Wilcox, mae gwahaniaeth rhwng ymgynghori (lle holir barn rhieni am ystod gyfyng o opsiynau) a phenderfynu gyda'ch gilydd (lle gall rhieni awgrymu opsiynau eraill a bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau). Byddwch yn glir ynghylch beth yr ydych yn gofyn i rieni ei wneud. Beth y medrant a beth na fedrant ddylanwadu arno?
- Defnyddiwch wybodaeth o ymchwil ddiweddar neu arolygon lleol lle bo hynny'n bosibl. Mae rhieni'n barod ichi ymgynghori â nhw ond mae angen iddynt weld y wybodaeth yn cael ei defnyddio. Mae rhieni plant anabl, yn enwedig, weithiau'n teimlo eu bod yn ateb yr un cwestiynau dro ar ôl tro, heb unrhyw fantais amlwg.
- A fyddai gennych fwy o siawns o gyrraedd eich rhieni targed pe bai gan fudiad gwirfoddol, rhwydwaith rhieni neu ymgynghorydd annibynnol hefyd rôl i'w chwarae? Mae hyn yn arbennig o bwysig gyda grwpiau a dangynrychiolir (gweler Adran 5).

Dulliau o ymgynghori

Ceir amryw o wahanol ffyrdd o ymgynghori â rhieni (yn ogystal â phlant a phobl ifanc). Bydd gan awdurdodau lleol arbenigedd ar ddulliau ymgynghori drwy eu rôl yn datblygu Strategaethau Cymunedol.

> Mae rhestr gynhwysfawr o ddulliau, gan gynnwys eu manteision a'u hanfanteision, ar gael yn www.idea-knowledge.gov.uk/idk/aio/68967

Rhoddir rhai enghreifftiau o ddulliau ymgynghori cyffredin yn Atodiad 3.

Oherwydd bod gan bob dull ei gyfyngiadau a chan fod rhai rhieni yn fwy tebygol o ymateb i un math o ymgynghori nag un arall, byddai'n well defnyddio amrediad o ddulliau er mwyn ceisio cyrraedd ystod o rieni. Bydd sefydliadau a gwasanaethau lleol yn gallu helpu.

Ar ôl ymgynghori

- Sut y byddwch yn defnyddio'r wybodaeth? A fyddwch yn gweithredu ar farn y mwyafrif? Sut y byddwch yn sicrhau bod barn grwpiau lleiafrifoedd yn cael ei hystyried?
- Sut y byddwch yn darparu adborth i rieni? Mae rhai Partneriaethau eisoes yn meddwl am sut i wneud adborth i rieni yn fwy systematig. Mae adborth yn rhan hanfodol o'r broses.

Cyfleoedd i Ymgynghori

Ar Lefel gwasanaeth:

- Mae rhieni'n cael dewis o ran ba wasanaethau a ddefnyddir ganddynt.

Mae nifer o wasanaethau yn cynnwys rhieni yn y broses o gynllunio rhaglenni a gweithgareddau. Weithiau, pwyllgorau neu fforymau rhieni sy'n cyflawni'r rôl hon, dro arall mae rhieni'n cyfrannu drwy godi arian i gynnal y gweithgaredd.

Yn aml, mae rhieni'n dewis o ddewislen o wasanaethau, ond mewn rhai achosion maent yn gallu dylanwadu ar ddatblygiadau newydd.

Mae Canolfan Blynyddoedd Cynnar Ynys Cynon yn cynnal Fforwm Rhieni unwaith bob tymor. Hysbysebir y cyfarfodydd yn y Ganolfan a gall unrhyw riant fynychu. Mae rhai rhieni yno fel cynrychiolwyr dros rywun sydd eisiau codi mater arbennig, os na fedrant fynychu neu os ydynt yn rhy swil i leisio barn eu hunain. Mae Pennaeth y Ganolfan hefyd yn codi materion ar ran rhieni ac mae ar gael i rieni os ydynt eisiau sgwrs anffurfiol. Yn y dderbynfa mae blwch sylwadau. Gall rhieni godi unrhyw fater yn y fforwm, ond mae llawer o'r drafodaeth wedi bod am wasanaethau y teimlwyd bod eu hangen ar rieni. O ganlyniad, bellach mae gwasanaeth gofal plant yn cael ei ddarparu ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol.

- Mae rhieni'n cael cyfle i roi adborth am y gwasanaethau a ddefnyddir ganddynt

Mae angen sicrhau bod gan bob gwasanaeth systemau yn eu lle i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu rhoi adborth. Mae rhai gwasanaethau yn trefnu bod rhieni, plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn adolygiad blynyddol ac yn y broses o flaen-gynllunio, yn enwedig yn y mudiadau gwirfoddol mwy.

Trafodir rhai dulliau o gael rhieni i gyfrannu adborth am wasanaethau yn Atodiad 3.

- Mae rhieni'n cael cyfle i wneud cwynion neu sylwadau

Mae cwynion yn gallu rhoi adborth defnyddiol. Mae'n bwysig eich bod yn helpu rhieni i ddefnyddio'r systemau cwyno a bod unrhyw wybodaeth sy'n dod allan o gwynion yn cael ei defnyddio'n adeiladol. Dylid rhoi adborth am sut y defnyddiwyd y wybodaeth a ddaeth allan o'r cwynion.

- Mae rhieni'n cael cyfle i gyfrannu at Arolygiadau ac Adolygiadau

Rhoddir pwyslais cynyddol ar gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr mewn ystod o Arolygiadau, ac mewn Cyd-adolygiadau (sy'n edrych ar holl waith yr Awdurdod Lleol). Er enghraifft, mae Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi cynhyrchu canllawiau ar sefydlu grwpiau

cyfeirio defnyddwyr/gofalwyr pan gynhelir cyd-adolygiadau[7]. Mae llawlyfr a thaflenni ar gael sy'n egluro beth yw pwrpas y cyd-adolygiad a beth y disgwylir i ddefnyddwyr gwasanaeth ei wneud.

Daeth grwpiau o rieni i bobl ifanc 11-20 oed, a oedd wedi cymryd rhan mewn rhaglenni magu plant 'Beth am Siarad' gan Wasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy, at ei gilydd ar gyfer ymarfer gwerthuso fel rhan o arolygiad o'r Bartneriaeth Pobl Ifanc (gan Estyn). Roedd dau riant o bob cwrs yn bresennol. Cyflwynodd y staff bawb a oedd yno a chafwyd cyflwyniad, ond dilynwyd hyn gan drafodaeth anffurfiol rhwng y rhieni a'r arolygydd lle'r oedd cyfle i rieni gael dweud beth roeddent wedi'i hoffi neu ddim am y cwrs a beth roeddent wedi'i ennill ohono. Dywedodd y rhieni eu bod wedi mwynhau'r profiad a bu'n gyfrwng i roi adborth defnyddiol i'r gwasanaeth ac i'r Arolygiaeth.

- Mae rhieni'n cael cyfle i wneud cyfraniad defnyddiol iawn i'r ymchwil.

Mae'n bwysig eu bod yn deall sut y bwriedir defnyddio eu gwybodaeth, a sut y byddant yn aros yn ddienw. Rhaid iddynt roi eu caniatâd gwybodus i ddefnyddio'r wybodaeth.

Dylai ymchwilwyr ystyried materion fel trafnidiaeth, amseriad cyfweliadau, gofal plant a thalu am dreuliau'r rhieni sy'n cymryd rhan. Dylai rhieni dderbyn adborth am ddarganfyddiadau'r ymchwil a, lle bo hynny'n bosibl, copi o'r ymchwil neu grynodeb (os ydynt ei eisiau).

Cytunodd y rhieni a oedd yn cael eu cefnogi gan Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Rhondda Cynon Taf i gymryd rhan mewn ymchwil gan yr Ymddiriedolaeth er Astudio'r Glasoed. Aethant i Lundain i fynychu cyfarfod ymgynghori ac i roi eu barn am beth sy'n helpu rhieni i ddechrau ac i barhau i gyfranogi mewn rhaglenni magu plant. Ymgorfforwyd y canlyniadau mewn adroddiad o'r enw "Parents' Views"[8] a gynlluniwyd i ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer. Yn ôl y rhieni, roedd yn brofiad grymusol iawn.

Ar lefel Partneriaeth:

Gellir gofyn i rieni am eu hanghenion nhw ac anghenion eu plant er mwyn goleuo strategaethau a chynlluniau (dylid hefyd ystyried barn plant a phobl ifanc).

Yng Ngheredigion, ymgynghorwyd â rhieni ynghylch iechyd emosiynol a lles eu plant. Gofynnwyd i rieni beth oedd eu dealltwriaeth nhw o les emosiynol a meddyliol, o ble'r oeddent yn cael gwybodaeth a pha wasanaethau y byddent yn hoffi eu gweld. Cyfrannodd barn y rhieni at gynllun gweithredu a chynhaliwyd cynhadledd, gyda rhieni'n cymryd rhan.

- Mae rhieni'n gallu cyfrannu at werthuso gwasanaethau presennol/ gwasanaethau peilot

Mae prosiect gofal plant Ysgolion Bro Tor-faen yn gynllun peilot (gan Lywodraeth y Cynulliad/yr Adran Gwaith a Phensiynau) i brofi'r syniad bod diffyg gwasanaethau gofal plant fforddiadwy yn rhwystr sylweddol i rieni sengl sydd eisiau mynd i weithio.

Sefydlwyd gwasanaethau gofal plant cyn ac ar ôl ysgol i rieni sengl mewn nifer o ysgolion a datblygwyd cysylltiadau gyda gwarchodwyr plant.

Mae mudiad ymchwil gymdeithasol yn gwerthuso'r prosiect peilot hwn. Fel rhan o hyn cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn a wyneb-yn-wyneb gyda darparwyr gofal plant, staff yr Awdurdod Lleol, staff y Ganolfan Byd Gwaith ac ysgolion. Y cam nesaf yw gwerthusiad rhieni.

Bydd holiadur yn cael ei anfon at y rhieni, gyda llythyr i'w lenwi os nad ydynt eisiau i rywun eu ffonio neu os nad ydynt eisiau cael eu cyfweld.

Awgrymwyd bod rhieni'n derbyn talebau fel 'rhodd diolch' am gymryd rhan yn y broses werthuso. Bydd rhieni sengl a ddewisodd beidio â chymryd rhan yn y cynllun peilot, a rhieni nad ydynt yn rhai sengl, hefyd yn cael eu cyfweld.

Lefel Tri - PENDERFYNU GYDA'CH GILYDD

Mae gofyn i rieni am eu barn yn elfen bwysig o gyfranogi, ond gellir hefyd mynd gam ymhellach a chynnwys rhieni mewn gwneud penderfyniadau. Dylid gwneud penderfyniadau ar sail barn bersonol, barn rhieni eraill ac ar sail gwybodaeth a phrofiad gweithwyr proffesiynol.

a) Penderfynu Gyda'ch Gilydd ar Lefel Gwasanaeth:

- Mae rhieni'n gallu bod yn aelodau o Baneli Rhieni, Pwyllgorau Rhieni a Phwyllgorau Rheoli.

Mae gwasanaethau'n amrywio o ran i ba raddau ac ar ba lefel y gwneir penderfyniadau ar y cyd. Efallai mai rôl y paneli rhieni a'r pwyllgorau rhieni yw cynllunio ac adolygu gweithgareddau beunyddiol. Mewn rhai gwasanaethau, mae rhieni'n cyfrannu at benderfyniadau mwy strategol.

Mae gan Ganolfan Deulu Pontlottyn drefniadau fel bod rhieni a phobl ifanc yn gallu cyfrannu at y penderfyniadau a wneir yn rheolaidd (bob tri mis). Mae yno Grŵp Pobl Ifanc, Grŵp Defnyddwyr Gwasanaeth i Oedolion a Phwyllgor Prosiect. Mae gan y Pwyllgor Prosiect gynrychiolwyr o'r ddau grŵp hyn arno, ynghyd â phartneriaid cyllido a gweithwyr proffesiynol eraill. Cynhelir y cyfarfodydd grŵp wythnos cyn y pwyllgorau rheoli er mwyn gallu bwydo unrhyw syniadau iddynt.

Pan fydd rhieni'n codi mater, mae staff yn cynnal trafodaeth agored am yr adnoddau sydd ar gael, ac unrhyw rwystrau. Byddant yn gweithio gyda rhieni i benderfynu ar y ffordd ymlaen. Yn aml iawn, mae rhieni'n helpu i redeg unrhyw weithgareddau y maent wedi gofyn amdanynt. Os na ellir gwneud rhywbeth, mae staff yn egluro'r rhesymau ac fel arfer mae'r rhieni'n deall: "A bod yn onest, nid ydynt yn gofyn am unrhyw beth afresymol" (Rheolwr y Prosiect)

Gall y mater o gynrychiolaeth fod yn anodd: 'Mae'n anodd taro cydbwysedd rhwng cysondeb a phobl yn teimlo'n gyffyrddus, ond eto fel nad yw'r un bobl yno am byth.' (Rheolwr y Prosiect). I ateb hyn, rhaid cael o leiaf un defnyddiwr gwasanaeth blaenorol ac un defnyddiwr gwasanaeth presennol ar y Pwyllgor Rheoli.

Gall pobl ifanc ddod â'u gweithiwr gyda nhw os ydynt yn dymuno, a cheir hysbysfwrdd yn gofyn am adborth. Rhieni a phobl ifanc yn aml yw hanner y pwyllgor.

b) Penderfynu gyda'ch gilydd ar lefel Partneriaeth:

Mae ymarferwyr mewn mwy nag un ardal wedi dweud bod rhieni'n dod yn fwy hyderus ar ôl cysylltu â gwasanaeth, ond nid yw'r trefniadau yn eu lle i roi llais iddynt ar lefel strategol.

Mae nifer o Bartneriaethau yn edrych o ddifrif ar wahanol fodelau o gael rhieni i gyfranogi, fel fforymau neu rwydweithiau rhieni.

Mae cael rhieni i eistedd ar grwpiau Partneriaeth yn elfen bwysig o gyfranogi ar lefel strategol (mae angen i hyn fod yn ychwanegol at ymgynghori'n ehangach).

Dylai Partneriaethau hefyd ofyn nifer o gwestiynau iddynt eu hunain pan yn gwahodd rhieni i ymuno â chyfarfodydd:

- Pa rieni ddylai eistedd ar grwpiau partneriaeth?

Mae profiad yn Nhor-faen a Chaerffili yn awgrymu ei bod yn haws cael rhieni i aros gyda nhw pan fyddant yn cynrychioli grŵp ac mae'r grŵp hwnnw'n eu cefnogi. Os ydynt yn cynrychioli grŵp, bydd angen eu helpu i gasglu gwybodaeth ac i fwydo'r wybodaeth honno'n ôl i'w cyd-rieni.

- Faint o rieni?

Mae'r llenyddiaeth yn y canllawiau hyn yn awgrymu o leiaf dau riant.

- Sut y gwahoddir hwy i ymuno?

A fydd proses o ddethol neu ethol?

- Sut y bwriedir eu paratoi a'u cefnogi/cynorthwyo?

Mae angen dewis rhywun i fod yn gyfrifol am hyn.

- Sut y bydd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu monitro?

Mae perygl y bydd gwasanaethau'n parhau i fod yn amhriodol i rai grwpiau rhieni os nad yw eu barn yn cael ei chynrychioli na'i chlywed byth.

- A ddylid rhoi cyfnod penodol i gyfranogiad pobl?

Dywedodd un rhiant a oedd wedi bod ar grŵp strategol ers tro byd ei bod yn teimlo ei bod yn dechrau gweld pethau o safbwynt proffesiynol yn hytrach nag o safbwynt rhiant.

Isod, rhoddir rhai enghreifftiau o sut i gael rhieni i gyfranogi:

- Gellir cael rhieni i eistedd ar weithgorau sy'n gyfrifol am ddatblygu strategaethau a chynlluniau.

Mae hyn yn cynnwys strategaethau cefnogi teuluoedd, strategaethau magu plant, strategaethau gofal plant neu chwarae.

Mae Partneriaeth Conwy wedi cynnal gweithdy bore i rieni i gefnogi magu plant. O ganlyniad, cynhyrchwyd cynllun gweithredu ar gyfer gwasanaethau targed ac mae tri o'r rhieni wedi mynd ar grŵp llywio i ddatblygu strategaeth magu plant Conwy.

- Gall rhieni fod ar grwpiau llywio sy'n gyfrifol am ddylunio gwasanaethau newydd.

Bydd ganddynt wybodaeth leol yn ogystal â phersonol, sy'n gallu goleuo gwasanaethau newydd.

Roedd rhieni yng ngwasanaeth Cychwyn Cadarn Sir y Fflint yn rhan o ddylunio Canolfan Deulu newydd. Rhoddwyd cyfle iddynt weld y cynlluniau ym mhob cam, ac i wneud newidiadau a chyfrannu syniadau. Parhaodd eu cyfraniad hyd nes y cwblhawyd y gwaith ar yr adeilad, a chawsant wedyn gyfle i ddewis lliwiau a dodrefn. Mae rhieni hefyd yn cael llais parhaus ynghylch pa weithgareddau a gwasanaethau sy'n cael eu darparu yno.

Ym Merthyr Tudful, mae rhiant ar banel rheoli'r Ganolfan Blant Integredig newydd, sy'n chwarae rôl allweddol gyda chynllunio a darparu gwasanaethau lleol. Mae rhieni hefyd wedi eu cynrychioli mewn Canolfannau Plant eraill.

- Gall rhieni fod yn aelodau o bartneriaethau strategol.

Mae aelodaeth rhieni o bartneriaethau strategol yn amrywio'n sylweddol. Mewn rhai ardaloedd, nid oes unrhyw rolau penodol i rieni, mewn eraill ceir rhieni ar rai is-grwpiau, yn enwedig is-grwpiau ar gyfer gwasanaethau plant anabl. Mae nifer fach o rieni (rhieni plant anabl yn bennaf) yn aelodau o bartneriaethau Plant neu bartneriaethau Pobl Ifanc. Mewn dwy ardal, mae rhieni yn aelodau o'r Partneriaethau Fframwaith trosfwaol.

Mae angen cynnwys rhieni yn fwy systematig mewn cyfarfodydd lle gwneir penderfyniadau allweddol. Gallai hyn gymryd cryn amser i'w gyflawni, ond mae angen iddo fod yn nod y dylid cyrchu ato.

Lefel 4 GWEITHREDU GYDA'CH GILYDD

Mae nifer o wahanol ffyrdd y gall rhieni chwarae rôl fwy gweithredol mewn datblygu a rheoli gwasanaethau.

- Gellir cynnwys rhieni yn y broses o recriwtio a dethol staff

Dylid disgwyl i ddefnyddwyr gwasanaeth chwarae rhan mewn recriwtio staff. Gallai hyn gynnwys rhoi gwybodaeth i ymgeiswyr, cyfrannu at brosesau dethol a helpu staff newydd i gynefino.

Mae paratoi'r rhieni yn hanfodol, fel bod rhieni'n deall egwyddorion cyfle cyfartal yng nghyswllt recriwtio a dethol. Mae angen meddwl am beth fyddai'n digwydd pe bai barn y rhieni'n wahanol i farn y gweithwyr proffesiynol ac a ddylid talu'r rhieni am eu hamser neu beidio. O leiaf, dylid talu rhieni am eu treuliau.

Mae gan Wasanaeth Teulu Gwledig Ynys Môn Banel Rhieni sydd â chynrychiolwyr o wahanol grwpiau allgymorth. Mae'r rhieni'n cael eu hyfforddi mewn recriwtio yng nghyd-destun cyfle cyfartal ac yn helpu i recriwtio staff newydd. Maen nhw hefyd yn gweithredu fel grŵp cyfeirio ar gyfer ymgynghori a rhoi gwybodaeth i rieni.

Yng Nghychwyn Cadarn Caerdydd, roedd staff eisiau cynnwys rhieni yn y broses o recriwtio gweithiwr chwarae, ond roeddent yn gwybod y byddai rhai rhieni'n anfodlon cymryd rhan mewn cyfweliad ffurfiol.

Felly trefnwyd sesiwn chwarae ugain munud i rieni a phlant, gyda'r ymgeiswyr yn cymryd rhan. Yna, gofynnwyd i'r rhieni roi sgôr o rhwng 1-5 i'r ymgeiswyr o ran:

- eu cynhesrwydd tuag at y plant
- sut yr oeddent yn cyfathrebu gyda'r rhieni
- eu cyfraniad at chwarae

Roedd un o'r rhieni hefyd ar y panel cyfweld.

Yna, cafodd sgoriau'r rhieni eu hystyried yn y broses benodi a barn y rhieni oedd ei bod yn broses foddhaol iawn. Roedd y rhieni a'r gweithwyr proffesiynol yn gwbl gytûn ar yr ymgeisydd a ddewiswyd, ond byddent wedi ceisio datrys unrhyw wahaniaeth barn drwy gael trafodaeth agored ar sut y dyrannwyd y sgoriau.

- Mae rhieni'n gallu cynhyrchu gwybodaeth a deunyddiau addysgol.

Mae rhieni mewn sefyllfa dda i ddarparu gwybodaeth a deunyddiau addysgol ar sail eu profiadau eu hunain. Mae angen adnoddau i gynhyrchu deunyddiau da, ond mae rhai prosiectau wedi llwyddo i leihau eu costau drwy feithrin cysylltiadau â cholegau lleol a chael eu myfyrwyr i wneud fideos/DVDs.

Penderfynodd rhieni o Grŵp Rhieni'n Rhannu Castell-nedd Port Talbot wneud fideo am eu cyrsiau magu plant, yn dangos gweithrediad rhai o'u grwpiau. Cyfrannodd rhieni'n llawn at y broses a daeth y syniad iddynt ar ôl nodi diffyg deunyddiau recriwtio, pryderon rhieni ynghylch ymuno â grŵp a bod angen dangos yn union beth sy'n digwydd mewn grŵp.

- Mae rhieni'n gallu cymryd rhan mewn hyfforddiant staff

Mae gan rieni lawer iawn i'w gynnig o ran cynefino a hyfforddi staff. Mae Cyngor Gofal Cymru wedi datblygu safonau ar gyfer cynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn hyfforddi Gweithwyr Cymdeithasol. Gall proffesiynau eraill hefyd elwa o glywed gan rieni a'u plant am eu profiadau.

Mae rhieni o Ganolfan Plant Caerffili (canolfan aml-ddisgyblaeth ar gyfer plant anabl) wedi cyfrannu at hyfforddi staff meddygol a bydwragedd yn Ysbyty Neuadd Neville yn y Fenni ac Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd. Maent hefyd wedi gwneud cyflwyniadau i Ffisiotherapyddion yn Ysgol Feddygol Caerdydd.

Maent hefyd wedi gwella dealltwriaeth staff proffesiynol o sut i roi diagnosis buan a phwysigrwydd cwnsela rhieni plant anabl yn ddigon buan.

- Mae rhieni'n gallu cyd-redeg gweithgareddau

Yn aml iawn, mae rhieni'n barod i helpu i drefnu gweithgareddau y byddent yn dymuno iddynt hwy a'u plant eu derbyn. Maent yn gallu helpu gyda meithrinfa, cynlluniau chwarae, tripiau ac yn y blaen. Mae nifer o wasanaethau'n sicrhau bod rhieni'n cael cynnig hyfforddiant achrededig i wneud hyn, sy'n gymorth gyda swyddi yn y dyfodol (e.e. trin bwyd, Technoleg Gwybodaeth, gofal plant).

Mae gan Gychwyn Cadarn Sir y Fflint rieni sy'n gweithio fel gwirfoddolwyr mewn llyfrgell deganau, busnesau bwyd cydweithredol a helpu i gynhyrchu cylchlythyr rheolaidd.

- Mae rhieni'n gallu cynnig amser a chymorth i eraill fel hwyluswyr cyrsiau neu fentoriaid rhieni.

Mae rhai rhieni sydd wedi elwa o wasanaeth eisiau rhoi rhywbeth yn ôl drwy helpu rhieni eraill. Mae mudiadau fel Cefnogaeth Gartref yn seiliedig ar gyfeillio rhwng rhieni, ond mae eraill hefyd yn datblygu hyn, fel rhan o ddewislen o wasanaethau.

Mae prosiectau Cychwyn Cadarn Sir y Fflint, Abertawe a Sir Gaerfyrddin i gyd wedi datblygu cynlluniau lle mae'r defnyddwyr gwasanaeth wedi dod yn wirfoddolwyr drwy gefnogi rhieni eraill. Yn Sir y Fflint, mae "rhieni bro" hyfforddedig yn cynnig cymorth misol yn y cartref drwy ddefnyddio dull 'un i un'. Yn Sir Gaerfyrddin, mae rhieni sy'n wirfoddolwyr hyfforddedig yn cynnig cymorth yn y cartref neu mewn grwpiau. Yn Abertawe, mae rhieni'n cyd-redeg cyrsiau magu plant ac yn mentora rhieni eraill. Mae rhai hefyd bellach yn cyfrannu at 'hyfforddi'r hyfforddwyr'. Yn yr enghreifftiau hyn i gyd, mae rhieni wedi cyfrannu'n llawn at ddatblygu'r cynlluniau.

Yn Nhor-faen, cyfrannodd grŵp o famau a oedd wedi dioddef o iselder ôl-enedigaeth at drefnu rhaglen gymorth i ddioddefwyr eraill (Sunshine Seekers). Mae nifer o famau wedi elwa o'r rhaglen hon ac mae rhai ohonynt bellach yn cael eu helpu gan y Cydgysylltydd Iechyd Cychwyn Cadarn i gyfrannu at drefnu, hyfforddi a chefnogi rhwydwaith o wirfoddolwyr, sydd i'w alw'n Friendly Faces.

Lefel Pump - CEFNOGI GWEITHREDU ANNIBYNNOL

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Blant Sir y Fflint wedi helpu grŵp o rieni i sefydlu grŵp gwirfoddol i rieni a phlant bach (*The Jugglers*). Cawsant eu helpu i ymgeisio am gyllid a rhoddwyd adeilad yn ddi-dâl iddynt fel man cyfarfod. Yn ogystal â rhedeg eu grŵp eu hunain, mae'r rhieni hyn bellach yn gweithredu fel grŵp cyfeirio ar gyfer y Gwasanaeth Gwybodaeth.

Yng Nghasnewydd, grŵp cymorth yw Cwtsh Plus i deuluoedd sydd â phlentyn anabl neu blentyn gydag anghenion ychwanegol eraill. Dechreuodd yn wreiddiol fel rhan o Gychwyn Cadarn, ond cawsant eu helpu i ddod yn grŵp annibynnol sy'n rheoli eu hunain yn wirfoddol ac sy'n cyflogi eu gweithwyr meithrinfa eu hunain.

Gwasanaethau sy'n cael eu Rhedeg gan Rieni

- Gellir cefnogi rhieni a/neu eu talu i redeg eu gwasanaethau eu hunain

Ni ddylid ystyried hyn fel ffordd o ddarparu gwasanaethau yn rhad. Gall rhieni ennill profiadau defnyddiol a theimlo'n llawer mwy grymus os ydynt yn dewis rhedeg eu gwasanaethau eu hunain ac os cefnogir hwy i wneud hynny.

- Gellir cefnogi rhieni a/neu eu talu i redeg eu rhwydweithiau a'u fforymau eu hunain

Ystod a phwrpas Fforymau Rhieni

Ceir nifer o wahanol dermau i ddisgrifio cyfarfodydd rheolaidd gan rieni - cynghorau rhieni, paneli rhieni, fforymau rhieni, ffederasiynau rhieni. Mae pwrpas y grwpiau hyn yn amrywio, ond mae llawer ohonynt wedi eu sefydlu'n bennaf i gefnogi a rhoi gwybodaeth i'w haelodau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn grwpiau i rieni plant anabl neu blant gydag anghenion ychwanegol eraill. Mae rhai'n gweithredu fel grwpiau dwyn pwysau yn ogystal â grwpiau cefnogi. Yn Adran 4, edrychwn ar rôl fforymau rhieni a rhwydweithiau rhieni o ran eu cyfraniad at gynllunio strategol.

Adran 4 FFORYMAU RHIENI A RHWYDWEITHIAU RHIENI

Ceir hanes, mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, o Fforymau Rhieni sy'n darparu cynrychiolwyr ar gyfer grwpiau sy'n cynllunio gwasanaethau anabl - er enghraifft Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro.

Mae gan Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro hanes hir o gyfrannu at gynllunio gwasanaethau. Mae'r Ffederasiwn yn cael ei redeg gan ac ar gyfer rhieni a gofalwyr plant neu oedolion gydag anableddau dysgu. Yn ogystal â darparu gwybodaeth a chymorth i rieni a gofalwyr, mae'r Ffederasiwn yn anfon cynrychiolwyr at nifer o grwpiau cynllunio strategol. Maent wedi cyfrannu at nifer o brosiectau allweddol, fel datblygu gweithgareddau chwarae i blant anabl, a gwasanaethau gofal seibiant hyblyg.

Maent hefyd wedi cyfrannu at 'osgoi newidiadau rhy eithafol a fyddai'n andwyol i'r gwasanaethau ac i fywydau pobl' (rhiant). Maent yn teimlo eu bod wedi llwyddo i wneud hyn drwy fod yn 'ddraenen barhaus yn yr ystlys', drwy graffu ar unrhyw newidiadau arfaethedig ac ymladd dros fuddiannau gorau pobl sydd ag anableddau dysgu a'u teuluoedd.

Mae enghreifftiau mwy diweddar yn cynnwys 'Rhieni a Gofalwyr Unedig' ym Merthyr Tudful (a gefnogir gan SNAP Cymru).

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae grwpiau rhieni eraill wedi codi o'r twf mewn addysgu a chefnogi rhieni. Yn aml iawn, mae rhieni sydd wedi defnyddio'r gwasanaethau eisiau parhau i chwarae rôl. Mae'r grwpiau hyn yn tueddu i fod yn gysylltiedig â phrosiectau.

Mae rhai Fforymau Rhieni newydd yn dechrau cael eu datblygu er mwyn goleuo gwaith y Partneriaethau Fframwaith.

Sefydlwyd *Parentlink* ym Mlaenau Gwent i ymgynghori â rhieni drwy weithdai, ar faterion penodol fel chwarae'n ddiogel. Penderfynwyd ynghylch pynciau'r gweithdai drwy anfon holiadur at rieni. Sefydlwyd grŵp llywio i symud y gwaith hwn yn ei flaen.

Mewn dwy ardal, sefydlwyd Rhwydweithiau Rhieni fel modd i gynnwys rhieni ar lefel strategol yn y Partneriaethau, a hefyd i ddarparu rhieni fel cynrychiolwyr i eistedd ar grwpiau'r Partneriaethau. Rôl y gweithiwr arbenigol yn yr ardaloedd hyn yw cydgysylltu a datblygu'r rhwydweithiau.

O ystyried lefel y diddordeb mewn Rhwydweithiau Rhieni, penderfynwyd disgrifio'r Rhwydweithiau presennol yn eithaf manwl a rhoi sylw i'r gwersi sydd wedi eu dysgu ohonynt.

Beth yw Rhwydweithiau Rhieni?

Mae Rhwydweithiau Rhieni'n bodoli mewn sawl gwahanol ffurf mewn gwahanol wledydd, ond yng Nghymru, un o'u prif bwrpasau yw **helpu rhieni i gael llais mewn gwneud penderfyniadau ar lefel strategol**. Mae ganddynt hefyd rôl o ran darparu cymorth, gwybodaeth a digwyddiadau i rieni.

Mae rhwydweithiau rhieni'n wahanol i Fforymau Rhieni eraill o ran:

a bod ganddynt frîff penodol i helpu rhieni i ddylanwadu ar ddatblygiad polisi a gwasanaethau, gan gynnwys anfon cynrychiolwyr i eistedd ar grwpiau Partneriaethau

b nid ydynt yn cynrychioli un grŵp budd arbennig o blant neu rieni - er enghraifft rhieni plant anabl neu rieni gyda phroblemau iechyd meddwl. Eu nod yw cynrychioli buddiannau ystod mor eang â phosibl o rieni.

Ar hyn o bryd, mae dau Rwydwaith yn bodoli yng Nghymru. Yr un yng Nghaerffili oedd y cyntaf o'i fath yn y DU, a'r un yng Nghastell-nedd Port Talbot oedd yr ail. Mae Partneriaethau eraill yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu rhywbeth tebyg.

Er bod Rhwydweithiau Rhieni yn fodel y mae Llywodraeth y Cynulliad eisiau ei annog, mae'n bwysig bod pob partneriaeth yn adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn digwydd yn lleol ac yn defnyddio model sy'n ceisio ateb pwrpas lleol. Y prif ofyniad yw bod y modelau'n seiliedig ar yr hyn y mae rhieni lleol ei eisiau a'u bod yn helpu rhieni i gyfrannu at y penderfyniadau a wneir ynghylch gwasanaethau sy'n berthnasol iddynt.

Rhwydwaith Rhieni Caerffili

Hanes a Phwrpas y Rhwydwaith

Daeth yr ymrwymiad i 'ymgynghori gyda rhieni ac annog eu cyfraniad'[9] yn wreiddiol o Rwydwaith Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Caerffili (a sefydlwyd gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, 1999). Sylweddolwyd fod angen cynrychiolaeth rhieni ar y grŵp hwn, ac ar y partneriaethau cynllunio aml-asiantaeth a oedd yn cael eu sefydlu.

Sefydlwyd proses ymgynghori gyda rhieni i edrych ar y materion ac i 'sbarduno' panel cynrychiolaeth rhieni. Ariannwyd hyn gan Gychwyn Cadarn, y Bartneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.

- Byddai gan y panel aelodau o ardal Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth gan gynnwys tarddiad ethnig, rhyw ac anabledd.
- Byddai'n sicrhau bod gan bob rhiant fynediad at wybodaeth berthnasol fel eu bod yn gallu cymryd rhan mewn trafodaethau gwybodus.

- Byddai'n cynnig hyfforddiant i rieni i ddatblygu eu gwybodaeth, sgiliau a'u hyder, fel eu bod yn gallu cymryd rhan lawn mewn cyfarfodydd.
- Byddai mynychu cyfarfodydd yn cael ei gynorthwyo drwy ddarparu trafnidiaeth a gofal plant pe bai angen.

Ymgynghorwyd ag wyth deg chwech o rieni ar draws y Bwrdeistref Sirol. Roedd gan y rhan fwyaf eisoes gysylltiadau â grwpiau neu brosiectau. Roedd y rhieni'n frwdfrydig ynghylch dweud beth oedd eu hanghenion cefnogi ac roedd nifer ohonynt eisiau gwybod mwy am y gwasanaethau a oedd ar gael yn eu hardaloedd nhw. Fodd bynnag, roedd llawer yn gyndyn o gyfranogi y tu allan i'w hardaloedd lleol, ar wahân i grŵp bach o rieni a oedd yn barod i weithredu fel cynrychiolwyr dros weddill y grŵp. Cyfrannodd y cynrychiolwyr hyn at ddatblygu beth a elwir bellach yn Rhwydwaith Rhieni Caerffili.

Penodwyd cydlynydd a chafodd y Rhwydwaith ei hwyluso'n gyntaf gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent ac yna gan brosiect blynyddoedd cynnar, *Right From The Start*.

I ddechrau, roedd y cyllid yn dymor byr, gyda gwahanol ffynonellau cyllid i wahanol ddarnau o waith. Roedd rhai grwpiau cefnogi rhieni yn rhan o rôl y cydgysylltydd, ond mae hyn bellach wedi newid. Erbyn hyn, mae'r pwyslais llawer mwy ar weithio gyda phartneriaethau strategol ac mae'r rhwydwaith yn cael ei gyllido'n llwyr drwy Cymorth (cyllid gan Lywodraeth y Cynulliad a reolir gan y partneriaethau Plant a Phobl Ifanc). Mae ar fin dod yn gorff elusennol annibynnol.

Mae cynorthwy-ydd wedi ei benodi'n ddiweddar fel cydgysylltydd, oherwydd y llwyth gwaith.

Rhwydwaith Rhieni Caerffili erbyn heddiw

Ar hyn o bryd mae gan y Rhwydwaith ddeugain o aelodau, ac eraill sy'n cysylltu â'r wefan am wybodaeth. Mae craidd o tua ugain o rieni wedi cyfrannu'n rheolaidd ac mae nifer lai yn gweithredu fel cynrychiolwyr ar y Bartneriaeth Plant, y Bartneriaeth Pobl Ifanc, y Bartneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a nifer o Grwpiau Themâu Lleol. Yn aml, gofynnir i'r Rhwydwaith ddarparu rhieni fel cynrychiolwyr ar grwpiau cynllunio gwasanaeth eraill.

Mae'r aelodau yn adnabyddus yn eu hardaloedd lleol ac yn darparu gwybodaeth i'w cysylltiadau lleol. Mae rhai yn aelodau o grwpiau rhieni eraill, fel Grŵp Dioddefwyr Aspergers Caerffili. Cysylltir ag eraill yn eu cymunedau gan bobl sydd eisiau codi materion penodol.

Mae'r Rhwydwaith yn cynnal dau fath o gyfarfod: cyfarfod anffurfiol yw un, gyda chinio a siaradwr gwadd perthnasol; 'cyfarfod busnes' yw'r llall lle gall rhieni ar y grwpiau partneriaeth strategol roi adborth a pharatoi ar gyfer eu cyfarfodydd nesaf. Mae paratoi a chymorth yn rôl bwysig i'r Rhwydwaith.

Mae aelodau o'r rhwydwaith hefyd yn ymateb i ymgynghoriadau lleol a chenedlaethol - naill ai'n bersonol neu drwy gyflwyno eu barn yn swyddogol.

Cynigir hyfforddiant i rieni sydd ei eisiau arnynt, yn bennaf drwy Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, e.e. sgiliau pwyllgora, cynllunio prosiectau, cynrychioli'r sector gwirfoddol.

Mae'r Rhwydwaith hefyd yn cynhyrchu cylchlythyr a gwefan, ac yn cefnogi grŵp i dadau.

Aelodau o'r Rhwydwaith a'u barn

Mae aelodau yn adlewyrchu trawsdoriad o'r gymuned - merched a dynion, rhieni sengl a rhieni heb fod yn rhai sengl, rhieni gyda phlant o wahanol oed, rhiant anabl, llys-rieni, neiniau a theidiau, rhieni o wahanol ardaloedd, rhieni gyda a heb gymwysterau proffesiynol. Y prif fwlch o ran cynrychiolaeth yw rhieni o grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig, sy'n cael ei weld fel mater anodd i'w ddatrys, o ystyried y ganran fach iawn o deuluoedd du a lleiafrifol ethnig yn y boblogaeth leol (gweler Adran 3 am fwy o wybodaeth am gynnwys rhieni du a lleiafrifol ethnig).

Beth sy'n ysgogi rhieni i ddod yn aelodau o'r Rhwydwaith a beth y maent yn ei ennill o wneud hynny?

Mae'r Rhwydwaith yn gweithredu ar nifer o wahanol lefelau:

- Fel grŵp cefnogi
- Fel ffynhonnell wybodaeth
- Fel adnodd ar gyfer datblygiad personol, drwy'r hyfforddiant a roddir a'r cyfleoedd i ennill sgiliau, gwybodaeth a phrofiad.

Mae gan wahanol bobl wahanol resymau am gymryd rhan. I rai, cefnogaeth a gwybodaeth yw rolau pwysicaf y rhwydwaith. I eraill, y cyfle i fynychu cyfarfodydd i helpu i wella pethau i rieni eraill yw'r prif ysgogiad. Mae nifer o rieni eisiau datblygu eu sgiliau cyflogaeth tra'n magu eu plant. Mae tafod leferydd wedi bod yn bwysig o ran gallu recriwtio pobl i'r Rhwydwaith.

"Rwyf yma i helpu gyda'r farn strategol ac i gyflwyno ein safbwynt i Awdurdodau Lleol, y Cynulliad Cenedlaethol etc. Ni fyddem yn dymuno i'r hyn sydd wedi digwydd inni ddigwydd i unrhyw un. Rhaid bod llawer iawn o rieni fel ni sydd angen cymorth arnynt. Rwyf yn teimlo fy mod yn rhoi rhywbeth yn ôl". (Rhiant i blentyn yn ei arddegau sy'n dioddef o Aspergers)

"Rwyf yn meddwl bod gan bob rhiant yn y Bwrdeistref hawl i'r un pethau. Nid yw loteri ar sail codau post yn deg."

"Rwyf yn wirfoddolwr proffesiynol!!"

"Mae nifer o bobl sydd wedi gadael y Rhwydwaith wedi dod o hyd i waith. Gallaf ddiweddaru fy sgiliau drwy'r rhwydwaith tra'r wyf gartref gyda'r plant."

Mae rhieni'n gallu cymryd rhan yn eu pwysau ac efallai na fydd rhai byth yn mynychu cyfarfodydd Partneriaeth strategol. Efallai eu bod yn hapus i dderbyn gwybodaeth ac i ddefnyddio'r Rhwydwaith fel ffynhonnell gymorth.

Mae eraill yn magu hyder o dipyn i beth, yn mynychu cyrsiau hyfforddiant, yn mynychu cynadleddau ac yn gwella eu gwybodaeth yn raddol. Efallai wedyn y byddant yn frwdfrydig ynghylch ceisio gwneud gwahaniaeth ar lefel strategol.

Beth y mae rhieni'n ei ddweud am fynychu cyfarfodydd strategol?

Mae rhieni'n sicr yn gweld eu hunain fel cynrychiolwyr ac nad ydynt yno i leisio eu barn eu hunain yn unig. Gall hyn fod yn broblem os yw papurau'n cyrraedd ar y funud olaf.

- Mae'n cymryd amser i deimlo'n gyffyrddus mewn cyfarfodydd ac i fedru lleisio barn;
- Roedd rhai pobl yn teimlo bod yn rhaid iddynt ddyfalbarhau i gael eu clywed ac yn meddwl bod rhieni o gefndir proffesiynol yn debygol o gael mwy o wrandawiad na rhieni heb y cefndir hwn;
- Teimlai eraill ei bod yn cymryd amser i staff proffesiynol oedd heb lawer o brofiad o gyfranogiad rhieni ddod i ddeall ei werth. Mae cyfranogi mewn cyfarfodydd yn cynyddu gydag amser, wrth i staff proffesiynol sylweddoli bod gan rieni safbwyntiau defnyddiol.
- Roeddent i gyd yn cytuno bod jargon a byrfoddau yn gallu bod yn broblem i nifer o rieni gyda deall y cyfarfod. Rhaid cael hyder i ofyn am eglurhad. Weithiau, mae rhieni'n gofyn i gysylltydd y Rhwydwaith am eglurhad, hyd nes y byddant wedi ennill digon o hyder yn y cyfarfod ei hun.

"Mae angen cael cysylltiad rhwng y person lleyg a'r holl bobl hyn yn uwch i fyny."

"Efallai fod rhai staff proffesiynol yn teimlo ein bod yn fygythiad, ond nid grŵp lobio ydyn ni. Rydym yn rhoi barn gytbwys ac yn barod i wrando hefyd."

Pa effaith y mae rhieni'n teimlo y maent wedi'i chael?

Roedd rhieni a gyfrannodd wybodaeth ar gyfer y canllawiau hyn yn gallu nodi pa newidiadau a ddigwyddodd o ganlyniad i'w mewnbwn. Mae enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Cododd un cynrychiolydd rhieni bryderon am gymwysterau isel y tiwtoriaid cymunedol oedd yn dysgu cwnsela yn y gymuned - o ganlyniad, mae'r cymhwyster sylfaenol wedi codi at lefel Diploma.
- Roedd rhieni a gymerodd rhan mewn trafodaeth strategol am warchod plant yn ddiweddar yn gallu nodi mai nid nifer y gwarchodwyr plant oedd y broblem, ond diffyg gwybodaeth i rieni am wasanaethau gwarchod plant. O ganlyniad, mae ymgyrch gyhoeddusrwydd yn cael ei hystyried.
- Gofynnwyd i riant gyflawni ymgynghoriad ynghylch anghenion gofal plant. Defnyddiwyd y canlyniadau i gynllunio gwasanaethau.

Mae rhieni wedi gallu dod ag enghreifftiau ymarferol i'r trafodaethau am blant anabl, pobl ifanc ddigartref a'r prosesau cwyno ar gyfer y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Maent wedi rhoi pwyslais cryf ar fod angen i rieni dderbyn mwy o wybodaeth, ac wedi chwarae rôl mewn rhannu gwybodaeth gyda rhieni eraill.

"Ar y lefel strategol, rydym yn cael dweud ein dweud bellach ac maent yn croesawu llais y rhiant."

"Rydym yn bobl gymwys ac mae gennym adnoddau"

"Mae staff proffesiynol bellach yn dechrau defnyddio'r rhwydwaith fel ffynhonnell gymorth, ac fel grŵp dwyn pwysau, i gael mwy o adnoddau."

"Mae cryfder mewn niferoedd"

Datblygiad y Rhwydwaith i'r Dyfodol

Gydag aelod o staff ychwanegol, bydd yn bosibl i'r Rhwydwaith gryfhau ei gysylltiadau gyda grwpiau rhieni eraill - er enghraifft rhieni yn yr ardaloedd *Flying Start* newydd (sef dalgylchoedd yr ysgolion lle mae o leiaf 40% o'r plant yn cael cinio am ddim). Caiff ei gydnabod bod angen annog, hyfforddi a chefnogi mwy o rieni i gynrychioli'r rhwydwaith ar y Partneriaethau strategol.

Manylion cyswllt ar gyfer Rhwydwaith Rhieni Caerffili:

Anne Fritter
Rhif Ffôn 02920868064
caerphillypn@btconnect.com
www.parentcaer.org.uk

Rhwydwaith Rhieni Castell-nedd Port Talbot

Hanes a phwrpas y Rhwydwaith

Yn 2002, roedd grŵp o staff proffesiynol a oedd yn cefnogi magu plant yng Nghastell-nedd Port Talbot yn edrych ar sut i gael rhieni i gymryd

rhan mewn grwpiau cynllunio. Sefydlwyd grŵp llywio gyda rhieni a staff proffesiynol ac, yn 2003, cyflawnwyd astudiaeth ymarferoldeb wedi'i chyllido gan Cymorth.

O ganlyniad, recriwtiwyd Swyddog Datblygu Rhwydwaith Magu Plant yn Awst 2004. I ddechrau, Barnardo's sy'n hwyluso'r cynllun hwn, ond y bwriad yw iddo ddod yn annibynnol yn y pen draw.

Lansiwyd y rhwydwaith yn gyhoeddus yn 2005, gyda'r Digwyddiad Rhieni Ultimate Parent (digwyddiad cenedlaethol sy'n cael ei gyd-redeg â Rhwydwaith Rhieni Caerffili). Daeth tua 400 o rieni i'r digwyddiad, a oedd yn cynnwys amryw o wahanol stondinau a gweithgareddau perthnasol.

Mae grŵp ymgynghorol wedi'i sefydlu ar gyfer y rhwydwaith.

Rhwydwaith Rhieni Castell-nedd Port Talbot erbyn heddiw

Gall unrhyw riant sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot, gyda phlentyn 0-25 oed, ddefnyddio'r Rhwydwaith.

Amcanion y rhwydwaith yw:

- cynnwys rhieni mewn penderfyniadau polisi/cynllunio perthnasol (ei arwyddair yw 'penderfynu gyda ni, nid ar ein rhan');
- datblygu rhwydwaith cefnogol o rieni sy'n gallu cynnig cyfeillgarwch a chyngor i'w gilydd, a rhywle i rannu teimladau ac i beidio â chael eu barnu.

Roedd y grwpiau blaenorol yn rhai ar gyfer rhieni gydag anghenion penodol, ond mae hwn, fel Rhwydwaith Caerffili, yn darparu ar gyfer ystod eang o rieni.

Nid yw'r Rhwydwaith yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol, ond mae'r swyddog datblygu yn anfon gwybodaeth yn ymwneud â phlant a magu plant drwy gylchlythyr a gwefan. Mae rhwng 250 a 450 o bobl yn cysylltu â'r wefan bob mis.

Mae'r gweithiwr hefyd yn cynnig cyngor/gwasanaeth brocera i rieni sy'n cael trafferth cael gafael ar wybodaeth neu wasanaethau.

Polisi a Chynllunio

Y nod yw cael grŵp craidd o rieni i gwrdd yn fisol neu bob deufis i edrych ar gofnodion ac agendâu ystod o gyfarfodydd partneriaeth strategol ac i drafod yr eitemau agenda fel panel. Yna, byddai un person yn cynrychioli'r panel yng nghyfarfodydd y Bartneriaeth, yn ôl eu diddordeb. Cynigir gofal plant, trafnidiaeth, cinio a hyfforddiant di-dâl i rieni sy'n ymuno â'r grŵp.

Mae recriwtio rhieni i'r panel hwn yn profi i fod yn anoddach nag yr oeddid yn ei ddisgwyl ac mae'n debygol o fod yn broses hir ac araf.

Mae gwaith arall wedi'i wneud i fwydo barn y rhieni i'r prosesau cynllunio, er enghraifft arolwg ar draws y Sir i ganfod beth oedd barn rhieni ynghylch a oedd ganddynt ddigon o lais mewn cynllunio gwasanaethau, a beth oedd eu blaenoriaethau. (Teimlai rhieni, ar y cyfan, nad oedd y gwasanaethau'n ymgynghori digon gyda nhw ynghylch eu hanghenion. Eu prif flaenoriaethau oedd gofal plant, parciau mwy diogel, a hamdden). Mae'r gweithiwr datblygu wrthi'n meddwl sut orau i symud ymlaen ar hyn.

Datblygu Rhwydwaith Cefnogi

Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i ymgysylltu â rhieni. Ar wahân i'r digwyddiad *Ultimate Parent*, daeth rhieni at ei gilydd yn lleol gyda meithrinfa i roi gwybod i rieni eraill am y rhwydwaith ac i roi cyfle iddynt gael cymdeithasu. Mae tua 50-60 o rieni ar y rhestr lythyru sy'n derbyn y cylchlythyr. Caiff copïau eraill eu dosbarthu drwy fudiadau a gellir hefyd ei ddadlwytho oddi ar y wefan. Mae gwirfoddolwyr yn gadael copïau mewn meddygfeydd. Ysgrifennir erthyglau ar faterion amserol fel newidiadau cyfreithiol i gyfrifoldebau rhieni, a cham-drin dynion yn y cartref.

Ar gyfer 2006, mae'r prosiectau ar y gweill yn cynnwys peilot mewn dwy ysgol i gynyddu cyfranogiad rhieni.

Bydd cyllid ar gael, a mater i'r rhieni a'r ysgolion fydd penderfynu sut y maent eisiau symud ymlaen.

Hefyd yn yr arfaeth mae gweithdai i rieni ar sgiliau cyflwyno a gweithio mewn partneriaeth.

Ar hyn o bryd, mae cydlynydd y Rhwydwaith yn mynychu nifer o wahanol gyfarfodydd strategol.

Datblygiad y Rhwydwaith i'r Dyfodol

Mae'n cael ei gydnabod y dylid sicrhau bod allgymorth i grwpiau rhieni'n digwydd yn rheolaidd a bod angen ei gynnal dros amser, er mwyn magu hyder y rhieni i gymryd rhan mewn fforymau cynllunio strategol. I wneud hyn, mae angen gweithiwr arall, felly, mae'r Rhwydwaith wedi recriwtio gweithiwr allgymorth yn ddiweddar a fydd yn canolbwyntio ar fynd i'r cymunedau lleol i siarad gyda fforymau rhieni bach a'u hannog i gymryd rhan yn y rhwydwaith.

Manylion cyswllt ar gyfer Rhwydwaith Rhieni Castell-nedd Port Talbot:

Nicole James
01639 620 771
07913 941 211
info@TheParentNetworkNPT.org.uk

Sefydlu Rhwydwaith Rhieni

Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r Rhwydweithiau presennol yn awgrymu:

- nid oes unrhyw lasbrint sy'n addas i bob ardal. Mae'n bwysig ymgynghori â rhieni lleol i sicrhau bod y datblygiad yn cael ei arwain gan rieni.
- mae cyfranogiad effeithiol gan rieni ar lefel strategol yn cymryd amser ac nid yw cyllid byrdymor yn gymorth i wneud cynlluniau hirdymor.
- mae'n bwysig adeiladu ar yr hyn sydd ar gael yn barod - mae gan asiantaethau lleol lawer o wybodaeth a phrofiad am gyfranogiad rhieni ac yn aml iawn mae ganddynt syniadau creadigol ynghylch sut i gael y sector pobl ifanc i gyfranogi.
- efallai y byddai'n ddefnyddiol cael asiantaeth hwyluso i ddechrau, ond, yn y tymor hwy mae annibyniaeth yn helpu rhieni i fod yn wrthrychol wrth wneud penderfyniadau strategol
- mae angen eglurder ynghylch rôl y Rhwydwaith - mae anawsterau'n gallu codi os disgwylir i weithwyr ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol yn ogystal â datblygu'r Rhwydwaith a meithrin gallu aelodau'r Rhwydwaith.
- mae angen recriwtio rhieni'n barhaus oherwydd bod eu hamgylchiadau'n newid ac mae llawer yn symud ymlaen - hefyd, mae rhieni sy'n eistedd ar grwpiau strategol am gyfnodau hir yn gallu colli eu persbectif 'lleyg'.
- Mae tafod leferydd yn gallu bod yn ffordd effeithiol iawn o gynyddu aelodaeth - mae gofyn i bobl ddod â ffrind neu gydnabod i'r cyfarfodydd yn ffordd ddefnyddiol iawn o gael pobl nad ydynt eisiau defnyddio gwasanaethau magu plant i gyfrannu.
- Mae angen paratoi rhieni ar gyfer, a'u helpu i fod yn aelodau effeithiol o Bartneriaethau - gall y Rhwydwaith wneud hyn.
- Mae amrywiaeth yn hanfodol, ond mae'n cymryd ymdrech i gyflawni hyn.
- Mae'n bwysig sefydlu cysylltiadau da rhwng y Rhwydweithiau, y Gwasanaethau Gwybodaeth i Blant a grwpiau a fforymau rhieni eraill mewn ardal Awdurdod Lleol. Gall hyn helpu gydag amrywiaeth ac i gasglu amrediad o wahanol safbwyntiau.

Gellid cyflawni hyn drwy ofyn i gynrychiolwyr fynychu cyfarfodydd ei gilydd, neu rannu cylchlythyrau/cofnodion cyfarfodydd a / neu gynnal digwyddiadau unwaith yn unig ar bynciau arbennig.

- Gweler hefyd y drafodaeth yn Adran 2 y canllawiau hyn ar baratoi rhieni ar gyfer cyfranogi.

Adran 5 CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Grwpiau sydd angen cymorth ychwanegol i gyfranogi arnynt

Mae rhieni i gyd yn wahanol. Nid yw'n bosibl trafod ystod cyfan y gwahaniaethau yn y canllawiau hyn. Soniwyd yn glir eisoes bod y canllawiau'n berthnasol i lys-rieni, rhieni maeth, rhieni sydd wedi mabwysiadu ac unrhyw un arall sy'n magu plant.

Fodd bynnag, mae rhai grwpiau rhieni sydd angen cymorth a chefnogaeth ychwanegol arnynt i gyfranogi. Mae'r rhain yn cynnwys rhieni sy'n byw mewn tlodi, rhieni gyda phlant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdodau lleol, rhieni sydd â salwch hirdymor, problemau iechyd meddwl neu broblem camddefnyddio sylweddau, rhieni sy'n dioddef o gam-drin yn y cartref neu sy'n byw mewn llochesi - mae'r rhestr yn un faith. Mae sicrhau bod gan yr holl rieni hyn y wybodaeth angenrheidiol a chyfle i leisio barn yn dipyn o gamp.

Mae gan asiantaethau sy'n gweithio gyda'r teuluoedd hyn rôl bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod barn y rhieni a'r bobl ifanc yn cael ei chlywed gan y rhai sy'n llunio polisi ac yn cynllunio gwasanaethau. Mae angen i bartneriaethau ystyried sut i gyd-drafod â gweithwyr cymdeithasol, ymwelwyr iechyd, Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid, timau cyffuriau ac alcohol a mudiadau gwirfoddol fel Cymorth i Fenywod wrth ddatblygu cyfleoedd i rieni gael cyfrannu at gynllunio gwasanaethau.

Isod, rhoddir rhai enghreifftiau pellach o grwpiau rhieni/gofalwyr allweddol y gallai fod angen mwy o gefnogaeth arnynt i gyfranogi. Mae'r blychau testun yn cynnig rhai adnoddau defnyddiol.

Tadau a dynion eraill sy'n gofalu

Yn y DU, mae bron i draean o'r holl ofal plant yn cael ei wneud gan ddynion. Dangoswyd bod cyfraniad dynion sy'n gofalu yn bwysig i lefelau cymdeithasu ac academaidd plant ac i leihau'r tebygolrwydd o ymddwyn yn droseddol.

Mae'n amlwg yn bwysig bod tadau yn ogystal â mamau yn cael eu cefnogi i fagu eu plant, ond, yn hanesyddol, merched sydd wedi cyfrannu fwyaf, fel staff ac fel defnyddwyr gwasanaeth.

Yn y blynyddoedd diwethaf, gwnaed mwy i gefnogi dynion i chwarae rhan fwy gweithredol ym mywydau eu plant. Mae gan Blant yng Nghymru swyddog datblygu rôl tadau ac mae rhai awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol yn cyflogi staff yn benodol i annog cyfraniad tadau.

Mae'r Adran Addysg a Sgiliau wedi cynhyrchu canllawiau ar gael tadau i gyfrannu at addysg eu plant (gweler y blwch testun). Mae'r negeseuon yn cynnwys: angen gweithgarwch yn lle gormod o drafod a bod angen dyfalbarhad a chreadigrwydd wrth annog tadau i gyfranogi. Dylai staff proffesiynol fod yn gwbl glir ynghylch bod angen annog tadau i gyfrannu,

ac nid 'rhieni' yn unig gan fod llawer yn tybio bod 'rhieni' yn golygu 'mamau'.

Yn ôl Ivens a Clements, awduron "An Introduction to working with fathers"[10], ar y cyfan nid yw dynion yn 'gwneud grwpiau' oni bai eu bod yn ymwneud â thasgau penodol a, hyd yn oed wedyn, maent yn gallu bod yn eithaf pendant ynghylch pa dasgau y maent yn gyffyrddus â nhw neu ddim.

Mae eu deg prif awgrym ar gyfer recriwtio tadau yn cynnwys:

- Bod yn glir a gonest am yr hyn sy'n cael ei gynnig iddynt, gan bwysleisio'r manteision i'w plant; a defnyddio iaith a delweddau sy'n gyfeillgar i ddynion a defnyddio tafod leferydd i recriwtio.
- Gweithio gyda nhw'n unigol cyn gwahodd tadau i grŵp.

Adnoddau ar gyfer Cael Tadau i Gyfranogi

Plant yng Nghymru - gweithiwr datblygu rôl tadau (02920342434) www.childreninwales.org.uk

Fatherskills - gwasanaeth cynghori a hyfforddiant ar wneud gwasanaethau yn gyfeillgar i dadau - father-friendlywww.fatherskills.co.uk

Fathers Direct - canllawiau ar weithio gyda thadau a chyrsiau hyfforddiant www.fathersdirect.com

Mae'r Adran Addysg a Sgiliau wedi cyhoeddi "Engaging fathers - Involving Parents, Raising Achievement," www.dfes.gov.uk

Continyou - cyngor ar gael tadau i gyfrannu at addysg eu plant www.continyou.org.uk

Pam.boyd@continyou.org.uk (person cyswllt ar gyfer Cymru)

Tadau Penigamp (Superdads) Penpych

Yn Rhagfyr 2001, roedd pennaeth Ysgol Penpych, ysgol fro yn y Rhondda, yn poeni bod y rhieni a oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ysgol bron i gyd yn famau neu'n neiniau. Siaradodd â'r merched am rôl y tadau ym mywydau eu plant. Dywedodd y mamau y byddent yn hoffi pe bai'r tadau yn chwarae mwy o ran.

Hysbysebwyd cyfarfod cychwynnol gyda'r tadau a'i gynnal yn y clwb rygbi, i wneud yr awyrgylch yn fwy anffurfiol. Cytunodd dau o'r tadau i helpu i sefydlu grŵp tadau. I ddechrau, roedd y tadau a dynion eraill a oedd yn ofalwyr yn cyfarfod yn yr ysgol bob pythefnos, ac yna'n wythnosol, i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'u plant.

I ddechrau, bu'r staff yn eu helpu i ddatblygu rhaglen o weithgareddau gyda'r plant a threfnodd yr ysgol i ddarparu ystafell a deunyddiau yn rhad ac am ddim. Bu'r broses o gael nifer dda i fynychu yn un araf deg, ond bellach mae 29 o blant a deuddeg o dadau'n cymryd rhan mewn gweithgareddau rheolaidd. Yn raddol, mae'r grŵp wedi dod i gynnal ei hun ac mae'n ymgeisio am grantiau i gynnal digwyddiadau mwy fel tripiau preswyl.

Mae'r tadau wedi magu mwy o hyder ac mae rhai yn cyflawni rôl weithredol yn yr ysgol, ar y Corff Llywodraethu er enghraifft. Mae'r plant wedi gweithio'n frwd i gael eu tadau i gymryd rhan. Mae'r Pennaeth yn disgrifio'r newid yn y plant fel un 'anhygoel' a bod eu hyder a'u cyflawniad academaidd, perthynas y teulu a'r gymuned gyfan wedi elwa.

Mae'r *Superdads* bellach wedi ymuno â 4 o grwpiau tadau eraill yn Rhondda Cynon Taf i sefydlu ffederasiwn o'r enw MATCH (Dynion a'u Plant). Maent yn bwriadu trefnu digwyddiadau ond hefyd yn gobeithio dylanwadu ar bolisi drwy gael un llais unedig.

Cadeirydd - Robert Davies Robert.Davies@AE.GE.com

Pennaeth, Gareth Todd Jones: penpych_com@rhondda-cynon-taff.gov.uk

Rhieni Du a Lleiafrifoedd Ethnig

Nid yw rhieni du a lleiafrifoedd ethnig wedi eu cynrychioli'n ddigonol mewn gwasanaethau ac ar y cyrff sy'n gwneud penderfyniadau.[11] Mae allgymorth yn hanfodol i ganfod pa wasanaethau sydd eu hangen ar wahanol grwpiau rhieni. Os yw ymgynghori bob amser yn digwydd gyda'r defnyddwyr gwasanaeth presennol, bydd nifer o rieni du a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu hallgau ac ni fydd y gwasanaethau'n newid i adlewyrchu eu hanghenion.

Mewn ardaloedd trefol, efallai fod nifer o brosiectau neu grwpiau du a lleiafrifol ethnig sy'n gallu helpu i gysylltu â rhieni. Tybir yn gyffredin nad yw hil yn broblem mewn ardaloedd gwledig ond, mewn gwirionedd, mae teuluoedd du a lleiafrifoedd ethnig mewn ardaloedd gwledig yn gallu wynebu problemau ychwanegol am eu bod yn ynysig ac am nad yw'r cyhoedd yn deall beth yw amrywiaeth.

Gall gwahaniaethau iaith a diwylliant wneud ymgynghori'n anodd (e.e. cael nifer o wahanol gyfieithwyr mewn grŵp). Er ei bod yn bwysig dod o hyd i ffyrdd o gynnwys rhieni du a lleiafrifoedd ethnig sy'n briodol i wahanol ddiwylliannau, ni ddylai diffyg hyder atal staff proffesiynol rhag bod yn rhagweithiol. Hyd yn oed mewn ardaloedd gwledig, efallai bod grŵp cymorth o ryw fath, fel grŵp merched neu grŵp ffydd, sy'n gallu bod yn fan cychwyn da. Gellir defnyddio gwasanaethau cyffredinol fel ymwelwyr iechyd i hysbysu rhieni am y gwasanaethau sydd ar gael a gofyn iddynt gymryd rhan.

Corff ymbarél yw Mewn Cymru sy'n darparu llwyfan i farn merched o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Mae ganddo weithwyr datblygu yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd a Gogledd Cymru, gyda chysylltiadau â grwpiau merched du a lleiafrifoedd ethnig. Mae gwefan y corff yn rhestru nifer o fudiadau du a lleiafrifol ethnig yng Nghymru. Efallai y gallai Rhwydwaith y Sector Gwirfoddol Du a'r Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol lleol hefyd gyda chysylltiadau.

Sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad weithgor i ddatblygu pecyn cyfathrebu ar gyfer Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig. Ar hyn o bryd, mae'r gweithgor yn ymgynghori arno, cyn ei lansio yn 2006.

Mae'r pecyn adnoddau hwn, fydd ar y We, yn cynnwys:

Data cyfrifiad ar gyfer ardaloedd lleol a chenedlaethol, canllawiau cyfathrebu, astudiaethau achos ac adnoddau gwybodaeth ychwanegol.

Mae gan Mewn Cymru nifer o gyhoeddiadau sy'n rhoi argymhellion ac enghreifftiau o ymarfer da. www.mewn-cymru.org.uk

Hefyd yn ystod 2006, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi Canllawiau Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer y Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. Mae Rhwydwaith y Sector Gwirfoddol Du wedi ymgynghori'n eang ar draws Cymru er mwyn goleuo'r canllawiau. Bydd nifer o'r negeseuon yn ddefnyddiol i'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

Mae cynnwys grwpiau ymylol eraill fel teuluoedd sipsiwn/teithwyr, a cheiswyr lloches, hefyd yn gofyn bod yn sensitif i faterion diwylliant a/neu iaith. Er enghraifft, bydd gan rai grwpiau draddodiad llafar yn hytrach nag un ysgrifenedig. Eto, byddai'n fuddiol defnyddio'r asiantaethau a'r grwpiau lleol, neu unigolion allweddol, i gysylltu â'r bobl hyn. Mae awdurdodau lleol sydd â phoblogaethau sipsiwn/teithwyr mawr yn tueddu i fod â gweithwyr cyswllt yn yr awdurdod addysg lleol. Bydd gan fudiadau gwirfoddol a statudol sy'n darparu gwasanaethau cefnogi teuluoedd gysylltiadau hefyd.

Rhieni plant anabl a phlant gydag anghenion ychwanegol

Mae'n rhaid i rieni plant anabl neu rieni plant gydag anghenion (arbennig) ychwanegol ofyn am wybodaeth a delio gydag amrediad cyfan o staff proffesiynol o'r funud y nodir cyflwr eu plentyn. Efallai fod yn rhaid iddynt frwydro am wasanaethau neu am le ysgol i'w plentyn.

Mae magu plentyn anabl yn her ychwanegol mewn nifer o ffyrdd. Am y rhesymau hyn, mae nifer o'r Fforymau Rhieni yng Nghymru yn rhai i rieni plant anabl neu blant gydag anghenion addysgol arbennig.

Mae gan rai mudiadau rôl eiriolaeth benodol, er enghraifft SNAP Cymru, sy'n darparu Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni ar draws 20 o'r 22 o awdurdodau addysg lleol yng Nghymru.

Gall rhieni plant gydag anghenion addysgol arbennig fanteisio ar wybodaeth, cyngor ac eiriolaeth di-duedd drwy SNAP. Mae'r mudiad hefyd yn ceisio rhoi llais i deuluoedd yng nghyswllt polisi a chynllunio gwasanaethau. www.snapcymru.org

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi "Llawlyfr o Arferion Da ar gyfer Plant ag Anghenion Addysgol Arbennig - Gweithio mewn Partneriaeth â Rhieni" fel rhan o'r llawlyfr AAA (Anghenion Addysgol Arbennig) i ysgolion.

Mae'n rhaid i bob awdurdod addysg lleol ddarparu gwasanaeth datrys anghydfod yng nghyswllt materion yn ymwneud â lleoedd addysgol. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu rhedeg naill ai gan NCH Cymru (0800 3896037) neu gan SNAP.

Gall rhieni ddatblygu cryfderau drwy eiriol dros eu plant, sy'n gallu eu helpu i fod yn aelodau effeithiol o grwpiau strategol. Maent yn ennill profiad sy'n gwneud iddynt fod eisiau gwella gwasanaethau, i'w plant eu hunain ac i eraill, ac maent yn dod yn ymwybodol i'r her a wynebir gan deuluoedd.

Cynhwysir rhieni plant anabl mewn is grwpiau ar nifer o Bartneriaethau. Cynhwysir nifer fach iawn ar y Partneriaethau Plant, y Partneriaethau Pobl Ifanc a'r Partneriaethau Fframwaith.

Gellir gofyn i fudiadau sy'n cefnogi rhieni plant anabl ddarparu cynrychiolwyr ar y Partneriaethau. Yn ddiweddar, cyflawnodd Cyswllt â Theulu arolwg o 77 o rieni, a dywedodd tua hanner y rhain eu bod wedi cael cyfle i wneud sylw ar y gwasanaethau. Gan amlaf, ymgynghoriad unwaith yn unig oedd hyn. Prin iawn oedd y rhieni a ddywedodd bod ganddynt gyfle rheolaidd i gyfrannu at gynllunio gwasanaethau, ond teimlai'r rhan fwyaf fod hyn yn bwysig ac y byddent yn hoffi chwarae mwy o rôl (arolwg i'r cyhoeddi y nes ymlaen yn 2006).

Mae gan Cyswllt Teulu ddau brosiect yng Nghymru i gynnwys rhieni ar lefel strategol:

Llais Rhieni/Parents Voice (cyllid loteri) - prosiect i ffurfioli cyfraniad rhieni mewn ymgynghoriadau. Ar hyn o bryd, mae tua 70 o rieni'n ymateb i ymgynghoriadau ac yn cyfrannu at ymgyrchoedd. Cynhelir gweithdai a diwrnodau hyfforddiant ar faterion sy'n bwysig i'r rhieni.

Rhieni a Phaediatryddion Gyda'i Gilydd - prosiect i gynyddu dylanwad rhieni ar y modd y darperir gwasanaethau iechyd i blant anabl.

Manylion cyswllt 02920 498001
wales@cafamily.org.uk

Rhieni Anabl

Mae gan 68 y cant o gartrefi sydd â phlant lle mae'r ddau riant yn gweithio o leiaf un rhiant anabl. Mae 32 y cant o rieni sengl sy'n ddi-waith yn anabl (SCIE). Mae pobl anabl sy'n gweithio yn debygol o fod ar gyflog is na phobl gorfforol abl. Felly, mae'r cysylltiad rhwng anabledd a thlodi plant yn un cryf iawn.

Bydd rhieni anabl efallai'n ystyried bod cyfranogi'n anodd os nad yw anghenion cyfathrebu neu fynediad yn derbyn sylw. Efallai na fyddant yn gwybod am Fforymau Rhieni neu'n methu â mynychu heb y cymorth iawn. Mae angen cymryd camau i sicrhau bod rhieni anabl yn gwybod pa wasanaethau sydd ar gael yn eu hardal, a'u cefnogi i gymryd rhan mewn fforymau Magu Plant ac mewn ymgynghoriadau. Dylid gwneud y cyswllt hwn drwy Ymwelwyr Iechyd, prosiectau Gofalwyr Ifanc a thrwy feddygfeydd ac yn y blaen.

Un ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol am grwpiau lleol o bobl anabl, a rhai sy'n gweithredu dros bobl anabl, yw Anabledd Cymru. Mae'n sefydlu tri rhwydwaith rhanbarthol fel bod mudiadau anabl yn gallu gweithio gyda'i gilydd ar faterion ac ymgyrchoedd perthnasol.

Ceir hefyd nifer o sefydliadau sy'n gallu rhoi gwybodaeth am gyfathrebu a mynediad i bobl gyda chyflyrau penodol (Atodiad 2).

Gellir dod o hyd o negeseuon ymchwil cryno am gefnogi a galluogi rhieni gyda nam corfforol neu ar eu synhwyrau, neu rieni gydag anawsterau dysgu, ar wefan y Sefydliad er Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol. www.scie.org .uk (o ddan "resources and publications")

Mae'r Rhwydwaith Rhieni Anabl yn darparu gwybodaeth ddiweddar i rieni anabl ar ei wefan. Mae hefyd yn rhoi cyfle i bobl anabl gael dweud eu dweud. Mae'r wefan yn cynnwys tudalen 'cais i gyfranogi' a, thrwyddi, gall ymchwilwyr a gwneuthurwyr polisi gysylltu â rhieni anabl i ofyn am eu barn am wahanol faterion. Codir ffi am y gwasanaeth hwn. www.disabledparentsnetwork.org.uk.

Rhieni sengl

Mae rhieni sengl yn wynebu problemau ychwanegol wrth fagu eu teuluoedd, fel cyflogau is a phroblemau gofal plant. Bydd gan nifer o'r gwasanaethau sy'n cael eu hariannu drwy'r partneriaethau rieni sengl fel

Mae Gingerbread yn cefnogi sefydlu grwpiau hunan-gymorth wedi eu harwain gan rieni sengl. Mae chwe chant o aelodau yng Nghymru ac un gweithiwr cyflogedig. Rôl y gweithiwr yw cefnogi'r grwpiau hunan-gymorth ac aelodau unigol ac yn darparu gwybodaeth iddynt. Mae gan Gingerbread hefyd linell gyngor bwrpasol a gall gyfeirio ei aelodau at wasanaethau eraill. Mae aelodau o Gingerbread yn hapus i ymateb i ymgynghoriadau a gellir cysylltu â nhw drwy'r brif swyddfa. (Gingerbread Cymru 029 2047 1900 - bobby@gingerbread.org.uk)

Nod SPAN (Rhwydwaith Gweithredu Rhieni Sengl) yw rhoi llais i deuluoedd un rhiant, a gweithio gyda phobl sy'n gwneud penderfyniadau i wella polisïau sy'n effeithio ar rieni sengl. Mae SPAN yn cael ei gyllido gan y Loteri Fawr i redeg pump o brosiectau ar draws y DU, er mwyn meithrin gallu rhieni sengl i gyfrannu er mwyn dylanwadu ar bolisi ar bob lefel. Mae un o'r prosiectau hyn yn Abertawe.

Mae SPAN hefyd yn cynnwys rhieni sengl mewn gwaith gwrth-dlodi, ar lefel leol, genedlaethol ac Ewropeaidd.

Manylion cyswllt: Ffôn 011 7 951 431
info@spanuk.org.uk
www.spanuk.org

defnyddwyr gwasanaeth. Mae'n bwysig ystyried eu barn wrth ddatblygu polisïau a chynlluniau. Gall mudiadau a sefydlwyd gan a thros rieni sengl helpu i roi llais i rieni sengl mewn polisi a chynllunio gwasanaethau.

Neiniau a theidiau ac aelodau hŷn eraill o'r teulu

Mae adroddiad diweddar gan Sefydliad Beth Johnson[12] yn cyfeirio at y cymorth ymarferol, emosiynol ac ariannol y mae neiniau a theidiau yn ei roi i'w plant a'u hwyrion a'u hwyresau. Crynhoir y ffeithiau allweddol o'r ddogfen hon yma.

Mae tua 60% o neiniau a theidiau yn gwarchod ŵyr neu wyres o dan 15 oed yn ystod y dydd ac mae dros eu hanner yn gwarchod eu hwyrion a'u hwyresau.

Mae neiniau a theidiau yn arbennig o bwysig ar adegau o argyfwng teuluol a phan fydd y rhieni'n gwahanu. Mewn rhai teuluoedd, efallai fod aelodau hŷn eraill o'r teulu yn darparu'r math hwn o gymorth.

Mae chwalfa deuluol yn gysylltiedig â'r lefel uchaf o gymorth gan neiniau a theidiau, a chyda lefel uchel o anfodlonrwydd ar ran y neiniau a'r teidiau ynghylch eu rôl. Mae gan tua 1 y cant o neiniau a theidiau (tua 100,000) ym Mhrydain o leiaf un yr neu wyres ddibynnol (o dan 13 oed) sy'n byw yn eu cartref heb riant ar hyn o bryd.

Mae'r rhesymau dros ofalu am wyrion ac wyresau yn cynnwys:

- Nid oedd y rhieni'n gallu gofalu am resymau cam-drin corfforol a rhywiol, esgeulustod, cam-drin gan bartner y fam a thrais yn y cartref (24%).
- Rhieni sydd wedi gadael y plant, yn bennaf oherwydd camddefnyddio sylweddau ond hefyd wedi cerdded allan neu adael i sefydlu perthynas newydd (23%).
- Chwalfa deuluol, gan gynnwys achosion lle nad oedd y plant yn dod ymlaen gyda phartner newydd y fam (16%).
- Salwch rhiant, gan gynnwys problemau iechyd meddwl (13%).
- Marwolaeth rhiant lle'r oedd y nain/taid wedi camu i mewn fel gwarchodwr (12%).

Mae neiniau a theidiau'n ysgwyddo rôl ofalu fel nad yw eu hwyrion a'u hwyresau'n cael eu rhoi yng ngofal yr awdurdod lleol, ond mae'r gost ariannol ac emosiynol yn uchel iawn iddynt.

Dylid cynnwys neiniau a theidiau yn y categori 'rhieni' i bwrpas y canllawiau

Mae'r Grŵp Hawliau Teuluoedd yn rhedeg bwrdd trafod electronig i neiniau a theidiau. Cyllidir hwn gan Lywodraeth y DU ac mae'n ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol am y problemau sy'n wynebu neiniau a theidiau, fel diffyg cymorth ariannol i rai sy'n derbyn gofalu'n barhaol am eu hwyrion a'u hwyresau.

Mae cysylltu â'i gilydd yn werthfawr iawn i neiniau a theidiau, gan y medrant deimlo'n ynysig iawn.
www.frg.org

hyn. Ar hyn o bryd, mae gweithgor y Cynllun Gweithredu Rhianta yn edrych ar ba fesurau eraill sydd efallai eu hangen i gefnogi neiniau a theidiau.

Rhieni Plant sy'n Derbyn Gofal

Yn y Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2001), rhoddir cyngor ar ddatblygu dull partneriaeth o weithio â rhieni, sy'n gallu bod yn arbennig o anodd pan fydd pryderon ynghylch lles y plentyn.

Mae "The Challenge of Partnership in Child Protection" (DoH 1995) yn rhybuddio ynghylch y tebygolrwydd o gilio draw o ddull cyfranogol pan fydd honiadau o gam-drin. Yn y ddogfen hon, rhoddir canllawiau ymarfer manwl i sicrhau y defnyddir dull sensitif wrth ddelio â rhieni mewn sefyllfaoedd anodd.

Gall rhieni plant sy'n Derbyn Gofal brofi teimladau o ddicter a galar ac efallai na fyddant eisiau cydweithredu ag asiantaethau statudol. Fodd bynnag, mae angen cymorth arnynt er hynny, a chyfle i gael dweud eu dweud. Mae cadw mewn cysylltiad yn bwysig i blant a phobl ifanc yn ogystal ag i rieni.

Efallai y byddai rhieni sy'n ymwrthod ag awdurdod lleol yn ymateb i gymorth gan asiantaeth anstatudol, fel grŵp i rieni plant sy'n derbyn gofal. Bydd gan y grwpiau hyn brofiad gwerthfawr i'w gyfrannu at adolygiadau o wasanaethau a chynlluniau datblygu gwasanaethau.

Y Cyd-destun Polisi yng Nghymru

Cyfranogiad plant a phobl ifanc

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi blaenoriaethau cyfranogiad plant a phobl ifanc. Ymhlith y mentrau ar eu cyfer mae:

- Comisiynydd Plant Cymru, fel pencampwr annibynnol dros blant a phobl ifanc. Mae'r Comisiynydd yn cynnwys plant a phobl ifanc ym mhob agwedd ar ei waith, gan gynnwys gosod y blaenoriaethau ar gyfer gwaith ei swyddfa.
- Draig Ffynci, y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc.
- Cynghorau Ysgol ym mhob ysgol a Fforymau Ieuenctid ym mhob ardal awdurdod lleol.
- Uned Gyfranogi - menter ar y cyd sy'n cael ei rhedeg gan Achub y Plant, i gefnogi arferion da mewn cyfranogiad pobl ifanc.
- Prosiect Cyfranogi o fewn Llywodraeth y Cynulliad, yn edrych ar sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn hybu cyfraniad plant a phobl ifanc yn ei gwaith, gan gynnwys mewn datblygu a gweithredu polisi.
- Y Rhaglen Plant yn Gyntaf (1999 - hyd at heddiw) sy'n ceisio gweddnewid y modd y rheolir ac y darperir gwasanaethau cymdeithasol i blant mewn angen a'u teuluoedd. Mae'r rhaglen yn cynnwys nod penodol 'i gynnwys defnyddwyr a gofalwyr yn weithredol mewn cynllunio, gweithredu ac adolygu gwasanaethau.'
- Safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth (2002) i helpu plant a phobl ifanc i leisio eu barn, a rheoliadau (2004) sy'n rhoi hawl statudol i blant mewn angen mewn sefyllfaoedd gofal cymdeithasol i gael derbyn gwasanaethau eiriolaeth.
- Newidiadau o dan Ddeddf Plant 2004 sy'n gofyn bod yn rhaid i awdurdodau lleol ganfod beth yw dymuniadau a theimladau plant mewn angen, a'u hystyried, yng nghyswllt yr holl wasanaethau a ddarperir iddynt.

Y ffactorau cyfreithiol a pholisi sy'n dylanwadu ar gyfranogiad rhieni

Mae'r hawl i rieni gael derbyn cymorth, a'u statws fel y bobl sy'n bennaf cyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch eu plant, wedi'i gwreiddio yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Erthygl 13. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig fel sail ar gyfer ei gwaith gyda phlant a phobl ifanc.

Ers cyflwyno'r Ddeddf Plant (1989) a'i nod o geisio meithrin dull partneriaeth o weithio i amddiffyn plant a sicrhau lles plant, cafwyd deddfwriaethau lu yng nghyswllt iechyd a gofal cymdeithasol i hybu cyfranogiad defnyddwyr/gofalwyr yn eu gwasanaethau. Er enghraifft: Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990; Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001; y Fframwaith ar gyfer Asesu

Plant Mewn Angen a'u Teuluoedd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2001); Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2002; Cod Ymarfer AAA Cymru 2002. Mae cyfranogiad y cyhoedd a chleifion yn elfen allweddol o'r ddogfen 'Gwella Iechyd yng Nghymru - Cynllun i'r GIG ynghyd â'i Bartneriaid' (2001) a'r canllawiau a gynhyrchwyd.[14]

Nod strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus, fel a nodir yn **Creu'r Cysylltiadau** (2005)[15] yw rhoi lle blaenllaw i ddinasyddion a hybu gwasanaethau "sy'n annog ac yn galluogi pobl i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau lleol". Mae'n dweud y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn "**annog cyrff sy'n darparu gwasanaethau, fel arfer gorau, i sicrhau bod llais y defnyddiwr yn cael ei glywed ar y lefelau uchaf pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud**".

Wrth gefnogi "Creu'r Cysylltiadau", bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, sy'n nodi pa gyfleoedd ddylai fod ar gael i ddefnyddwyr i gymryd rhan mewn cynllunio, rheoli a darparu gwasanaethau. Bydd canllawiau hefyd ar sut y dylai gwasanaethau cyhoeddus fynd ati i ddarparu gwasanaeth cwsmer gwell ac ymgysylltu'n well â'r cyhoedd.

Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Blant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth (2005 yng Nghymru)[16] yn nodi safonau sy'n cynnwys cyfleoedd rheolaidd i ddefnyddwyr gael cymryd rhan mewn cynllunio ac adolygu eu gwasanaethau. Yn ôl Safon 2:1, rhaid i asiantaethau "weithredu polisi ar gyfer sicrhau cyfranogiad plant, pobl ifanc a'u teuluoedd fel partneriaid yn y gwaith o gynllunio a gwerthuso'r gwasanaethau sy'n effeithio arnynt."

Mae'r Rhaglen Plant yn Gyntaf[17] hefyd yn gofyn i awdurdodau lleol 'ddangos eu bod yn ceisio barn plant a'u teuluoedd yn weithredol ac yn ystyried y farn honno pan yn cynllunio, gweithredu ac adolygu gwasanaethau.' Pob blwyddyn, rhaid i awdurdodau lleol gynhyrchu cynlluniau gweithredu rheoli Plant yn Gyntaf, ac adroddiadau cynnydd, yn dangos sut y maent yn cynnwys plant a'u teuluoedd a sut y maent yn gweithredu ar eu barn.

Yng nghyswllt addysg, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu cyllid i ddatblygu Ysgolion Bro[18]. Bydd nifer o ysgolion bro yn ystyried ystod o ffyrdd i gefnogi ac ymgysylltu â rhieni, teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol newydd ar gyfer Gweithio gyda Rhieni[19] yn seiliedig ar egwyddorion partneriaeth â rhieni a grymuso rhieni.

Mae ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu canolfannau integredig ar draws Cymru, mewn partneriaeth â Chronfa'r Loteri Fawr, yn dod ag amryw o wasanaethau at ei gilydd i rieni a phlant, gan gynnwys Cychwyn Cadarn, addysg blynyddoedd cynnar, gofal plant, chwarae, cefnogi teuluoedd, cyfleoedd dysgu a gwasanaethau iechyd. Mae'r canllawiau gan Cymorth yn annog gweithgareddau fel cymorth i fagu plant yn y canolfannau hyn, neu rwydweithiau gwasanaethau integredig, sy'n cynnig cyfle delfrydol i ymgysylltu â rhieni.

Dulliau o Ymgynghori

Y dull mwyaf cyffredin a ddefnyddir i ymgynghori yw arolygon ar sail holiaduron, ac arolygon dros y ffôn. Mae angen i'r rhain gael eu cynllunio'n fedrus, fel nad ydynt yn rhwystro pobl rhag dweud yr hyn y maent eisiau ei ddweud. Gellir eu gwella drwy gynnwys defnyddwyr gwasanaeth wrth eu treialu (arolygon peilot).

Os yw holiaduron yn cael eu hanfon yn y post, gall ymateb gwael effeithio ar y darganfyddiadau. Ystyriwch gasglu ffurflenni sydd wedi eu llenwi, neu ddefnyddio cymhellion i annog ymateb da, e.e. raffl gyda gwobrau i bawb sy'n anfon holiadur yn ôl.

Mae arolygon ar-lein yn ddull cyflym a rhesymol o ran cost ac yn gallu estyn allan at nifer fawr o rieni. Fodd bynnag, efallai na fyddant yn cyrraedd y grwpiau mwyaf difreintiedig.

Mae gwybodaeth drwy holiadur wedi'i gyfyngu gan y fformat, felly efallai y byddai'n syniad da cryfhau'r wybodaeth drwy gynnal **gweithdai ffocws** neu sefydlu **gweithgorau** ar wahanol themâu.

Er mwyn cynnwys pobl yn fuan yn natblygiad polisi neu strategaeth, er enghraifft i ddatblygu strategaeth cefnogi teuluoedd, mae technoleg Llawr Agored yn ddull creadigol a bywiog. Mae'n rhoi cyfle i grwpiau mawr o bobl gael cyflwyno eu barn a'u syniadau.

Er bod gan ddigwyddiadau llawr agored thema fel arfer, mae'r gweithdai yn fwy hyblyg. Y bobl sy'n mynychu'r digwyddiad sy'n negodi'r rhain. Mae amser ac ystafell yn cael eu neilltuo i drafod pob pwnc y cytunwyd arno, a gall unrhyw un ymuno ag unrhyw weithdy. Mae'r dull hwn yn sicrhau mai'r cyfranogwyr sy'n penderfynu'r agenda, nid y trefnwyr. Mae angen arweinydd hyderus i sicrhau bod y broses hon yn rhedeg yn rhwydd, ond mae'n sicrhau nad yw'r arweinydd yn gorfodi ei syniadau.

Gall Cyfranogaeth Cymru gynnig hyfforddiant mewn technoleg llawr agored.

Mae rhai partneriaethau wedi dod o hyd i ffyrdd dychmygus o ymgynghori â nifer fawr o rieni, fel **diwrnodau hwyl teulu** sy'n rhoi cyfle i gyflwyno sylwadau ar bolisi. Er enghraifft, roedd diwrnod Hwyl Teulu Casnewydd yn cynnwys cyfle i bobl leisio barn am y Strategaeth Cefnogi Teuluoedd ddrafft. Anfantais y dull hwn yw'r amser a'r gost a achosir.

Dulliau o Werthuso Gwasanaethau Gyda Rhieni

Holiaduron boddhad yw'r dull mwyaf cyffredin a ddefnyddir o gael adborth gan ddefnyddwyr, ond gall fod yn anodd i rai rhieni fynegi anfodlonrwydd os nad yw'r cwestiynau wedi eu geirio i roi caniatâd - er enghraifft yn lle gofyn a ydyw pobl yn fodlon gyda'r gwasanaeth, gofyn 'Sut y gellir gwneud hyn yn well?'

Mae angen hefyd ystyried materion llythrennedd ac iaith. Ceir symbolau gweledol defnyddiol ar gyfer holiaduron boddhad (wynebau'n gwenu, etc) a gall adolygiadau gyda grwpiau rhieni gynnwys ymarferion lle gwahoddir pobl i sgorio gwasanaethau neu syniadau drwy roi sêr wrth eu hoff rai ar siart.

Gall defnyddio gwirfoddolwyr i gynnal cyfweliadau holiadur ildio gwybodaeth fwy agored nag anfon holiaduron yn y post neu ddefnyddio staff i gyfweld defnyddwyr gwasanaeth.

Gall holiaduron safonol 'cynt a chwedyn' (er enghraifft, yr holiadur Cryfderau ac Anawsterau, a'r raddfa Anawsterau Dyddiol Magu Plant) roi gwybodaeth ddefnyddiol am ba bethau y mae rhieni'n teimlo sydd wedi newid iddyn nhw a'u plant o ganlyniad i ddefnyddio'r gwasanaeth. Dylid hefyd ofyn barn plant a phobl ifanc.

Gall ffyrdd eraill o ofyn am adborth gynnwys grwpiau ffocws/gweithdai, sylwadau a blychau awgrymiadau, waliau graffiti, dyddiaduron fideo. Er enghraifft, gellir defnyddio dyddiaduron ffotograffig fel modd i rieni gael dilyn datblygiad eu plant.

Mewn grwpiau a gweithdai, gall deimlo'n llai bygythiol a gall fod yn fwy o hwyl gwneud ymarferion a gemau grŵp, yn lle cael trafodaeth yn unig. Rhoddir rhai adnoddau ar gyfer ymarferion yn y blwch testun isod.

Gellir addasu ymarferion a gemau grŵp i bobl ifanc ar gyfer oedolion er mwyn dod ag elfen o hwyl i ymgynghoriadau a gwerthusiadau.

Spice It up - Dynamix ac Achub y Plant 2002

Llawlyfr Gamesters 1 - (1979)

Llawlyfr Gamesters 2 - (1990) Donna Brandes a Howard Phillips (Cyhoeddir gan Nelson Thornes)

Llawlyfr Gamesters 3 - (1998)

Crynodeb o'r Cyfleoedd sydd ar gael i Rieni gael Cyfranogi

Cyfleoedd sydd ar gael i Rieni gael Cyfranogi ar Lefel Gwasanaeth

Gwybodaeth

- rhoi **gwybodaeth ysgrifenedig a llafar glir am wasanaethau** i rieni ac am **anghenion plant a magu plant**, mewn fformatau addas
- cael gwybod sut i gyflwyno sylwadau neu wneud cwynion am wasanaethau, a sut i **herio penderfyniadau,** ac at bwy i droi am gymorth
- gofyn i rieni **pa wybodaeth sydd ei hangen arnynt**
- helpu i wneud gwybodaeth yn **gyfeillgar i'r defnyddiwr**

Ymgynghori

- cael **dewis** ynghylch y gwasanaethau a ddefnyddir ganddynt
- **rhoi adborth** ar y gwasanaethau a roddir iddynt, fel y gellir eu gwella
- cyfrannu at **Arolygiadau a Chyd-adolygiadau,** ac ati
- cyfrannu at **ymchwil**

Penderfynu a Gweithredu Gyda'ch Gilydd

- **recriwtio** staff, gan gynnwys llunio disgrifiadau swyddi a chymryd rhan yn y prosesau o ddethol a chynefino staff
- **gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd** am ddatblygiadau newydd a **helpu i'w gweithredu**, er enghraifft: cynhyrchu gwybodaeth a deunyddiau addysgol, cyd-redeg gweithgareddau i blant ac i rieni eraill;
- **cymryd rhan mewn hyfforddi staff**, yn eu gwasanaeth eu hunain neu mewn mannau eraill
- eistedd ar **Baneli Rhieni, Pwyllgorau Rhieni, Pwyllgorau Rheoli**

Cefnogi Gweithredu Cymunedol Annibynnol

- Rhieni'n cael eu cefnogi a'u hariannu i **redeg eu gwasanaethau eu hunain**.

Cyfleoedd sydd ar gael i Rieni gael Cyfranogi ar Lefel Strategol

Gwybodaeth

- gofyn i rieni pa wybodaeth sydd ei hangen ar rieni yn yr ardal
- sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau a grwpiau cefnogi ar gael yn lleol, ac am unrhyw ddatblygiadau newydd sy'n cael eu hystyried
- gofyn i rieni beth yw eu hanghenion nhw ac anghenion eu plant, er mwyn goleuo strategaethau a chynlluniau (dylid hefyd gofyn i blant)
- cyfranogi mewn gwerthuso gwasanaethau/cynlluniau a ddarperir eisoes

Penderfynu a Gweithredu Gyda'ch Gilydd:

- sicrhau bod rhieni wedi eu cynrychioli ar weithgorau sy'n datblygu strategaethau a chynlluniau, e.e strategaeth cefnogi teuluoedd, strategaethau magu plant, strategaethau gofal plant neu chwarae
- sicrhau bod rhieni wedi eu cynrychioli ar bartneriaethau Strategol
- bod ar grwpiau llywio yn dylunio gwasanaethau newydd

Cefnogi Gweithredu Annibynnol

- Mae cyllid ar gael ar gyfer Fforymau Rhieni neu Rwydweithiau Rhieni

Cysylltiadau defnyddiol ychwanegol

Cysylltu â rhieni o grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig

Am restr o dros 30 o grwpiau a mudiadau merched du a lleiafrifoedd ethnig ar draws Cymru, gweler gwefan Mewn Cymru www.mewn-cymru.org.uk

Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
www.cre.gov.uk
02920729200

Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol:
Cyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd, Pontypridd
www.valrec.org
01443 401555

Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De Cymru, Casnewydd
www.swrec.org.uk
01633 259 006

Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru, Bae Colwyn
info@nwren.org
01492 53585

Race Equality First, Caerdydd
www.racequalityfirst.org
mail@racequalityfirst.org

Rhwydwaith y Sector Gwirfoddol Du
www.bvsnw.org.uk
bvsnwales@aol.com
02920450068

Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan
www.awema.org.uk
enquiries@awema.org.uk
02920664213

Ffoaduriaid

Cyngor Ffoaduriaid Cymru
02920 489800

Ceiswyr Lloches

Am wybodaeth am bwy i gysylltu â nhw i gael teuluoedd ceiswyr lloches i gyfranogi, ffoniwch:
Consortiwm Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches Cymru - 01633 855095

Rhieni Anabl a Rhieni Plant gyda Nam ar y Synhwyrau, Anawsterau Corfforol neu Anawsterau Dysgu

Cyswllt Teulu Cymru

Gwybodaeth am dros 1000 o gyflyrau sy'n effeithio ar blant, a'u grwpiau cefnogi lleol ac yn y DU
02920 498001
wales@cafamily.org.uk
www.cafamily.org.uk

RNIB Cymru (nam ar y golwg)
02920 450440
nicola.crews@rnib.org.uk
www.rnib.org.uk

SCOPE Cwmpas Cymru (parlys yr ymennydd)
02920 461703
mail@scopecymru.org.uk
www.scope.org.uk

Cymdeithas Syndrom Down
02920 522511
dsa.wales@lineone.net
www.downs-syndrome.org.uk

Y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth
01792 815915 (NB - bydd y rhif yn newid yn fuan gan fod y swyddfa'n symud i Gaerdydd)
wales@nas.org.uk
www.nascymru.autism.org.uk

Anabledd Cymru
www.disabilitywales.org
info@dwac.demon.co.uk

RNID Cymru (nam ar y clyw)
www.rnid.org.uk
informationline@rnid.org.uk
0808 808 0123

SNAP Cymru (cyngor ac eiriolaeth ar addysg anghenion arbennig)
Pencadlys 02920384868
headoffice@snapcymru.org
www.snapcymru.org

ABCD (plant a phobl ifanc du a lleiafrifol ethnig sydd ag anabledd a/neu salwch cronig) 02920 250055
www.abcdcymru.org.uk

Llenyddiaeth

1. Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) Cynllun Gweithredu Rhianta: Cefnogi Mamau, Tadau a Gofalwyr sy'n Magu Plant yng Nghymru
2 Llywodraeth Cynulliad Cymru (2000) Ymestyn Hawliau
3 Carr S (2004) Has Service User Participation made a difference to social care services? SCIE
4 Wilcox D. (1994) Guide to effective participation, Partnership Books, www.jrf.org.uk
5 Y Cyngor dros Blant Anabl a Chyswllt Teulu (2004) Parent Participation: improving services for disabled children
6 Y Gynghrair Polisi Teuluoedd (2005) Parent Participation: improving services for children and families
7 Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru (2004) Information about Joint Reviews - working together to improve Social Services
8 Elliot A, Lindfield S, Cusick J (2002) Parents Views - Trust for the Study of Adolescence
9 Miskey Sanderson (2000) Consulting parents, families and carers in Caerphilly County Borough, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
10 Ivens T a Clements N. (2005) "An introduction to working with fathers" Fatherskills
11 Baruah M (1997) Making Voices Heard - AWEMA
12 Sefydliad Beth Johnson (ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru) (2005) Grandparents in Wales: a baseline
13 Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig 1989, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
14 Cynulliad Cenedlaethol Cymru a GIG Cymru (2001) Signposts: A practical guide to public and patient involvement in Wales
15 Llywodraeth Cynulliad Cymru, Hydref 2004 - Creu'r Cysylltiadau: Gwell - Gwasanaethau i Gymru
16 Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005 - Y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Blant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru
17 Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhaglen Plant yn Gyntaf 1999 - hyd at heddiw
18 Cylchlythyr 34/2003 Llywodraeth Cynulliad Cymru - Ysgolion Bro
19 Dysgu Gydol Oes y DU a Fforwm Addysg a Chefnogaeth gyda Magu Plant (2005) Y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol newydd ar gyfer Gweithio Gyda Rhieni.

Copïau pellach

Mae copïau pellach o'r ddogfen hon ar gael oddi wrth:

Jane Hanbury
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3675
E-bost: huw.jones@wales.gsi.gov.uk